Ionawr 2022

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

2022

**1. CRYNODEB** ........ **1**

**2. CYFLWYNIAD** ........ **2**

**3. Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO** ........ **3**

DEDDFWRIAETH A CHANLLAWIAU ........ 3
CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ........ 5

**4. Y SEFYLLFA BRESENNOL** ........ **8**

**5. METHODOLEG YR ASTUDIAETH** ........ **9**

FFYNONELLAU DATA ........ 10
*Cyfrifiad 2011* ........ *10*
*Y Cyfrif Carafanau Chwe-misol* ........ *12*
*System Fyw ar gyfer Cyfrif Carafanau* ........ *14*
*Canfyddiadau Astudiaeth Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015/16* ........ *16*
*Tai a Digartrefedd* ........ *16*
*Addysg* ........ *17*
*Cynllunio a Gorfodi* ........ *17*
*Asiantaethau Eraill* ........ *18*
CYNNAL YR ASESIAD ........ 19
*Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad* ........ *19*
*Dull Asesu* ........ *20*
*Cyfyngiadau ar ymgysylltiad ymatebwyr* ........ *21*

**6. CANFYDDIADAU'R AROLWG** ........ **22**

CYFRIFO ANGHENION ........ 24
ANGEN PRESWYL ........ 25
ANGEN TRAMWY ........ 27
ANAWSTERAU A GAFWYD ........ NGEN TRA29

**7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION** ........ **30**

TU HWNT I 2022 ........ 31

**ATODIAD 1: DIFFINIADAU** ........ **33**

**ATODIAD 2: LOG GWEITHGARWCH** ........ **37**

**ATODIAD 3: LOG CYFWELIADAU** ........ **38**

**ATODIAD 4: HOLIADUR** ........ **40**

**ATODIAD 5: POSTERI DWYIEITHOG** ........ **50**

**ATODIAD 6: SYSTEM FYW AR GYFER CYFRIF CARAFANAU** ........ **52**

## 1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2019 a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion (CSC) a diweddariadau perthnasol hyd at fis Ionawr 2022. Mae iddo'r nod o ddarganfod a oes angen darparu lleiniau tramwy, dros dro neu barhaol, dros y pum mlynedd nesaf a thros gyfnod pymtheng mlynedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.

Roedd pandemig Covid-19 yn 2020 wedi llesteirio gallu'r Awdurdod Lleol i ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ond pan oedd yn bosibl gwneud hynny yn sgil llacio'r cyfyngiadau, nodir hynny yn yr atodiadau.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safle Sipsiwn gan yr awdurdod lleol ac un safle preifat awdurdodedig yn unig sydd yn y sir. Nid oes unrhyw ddarpariaeth barhaol chwaith ar gyfer siewmyn teithiol. Yn hanesyddol, mae hi wedi bod yn her i gysylltu â Theithwyr Newydd, gan nad oes gan y Cyngor unrhyw gofnod o'u lleoliad. Ers mis Mehefin 2016, mae ethnigrwydd wedi ei gynnwys ym mhroses ymgeisio'r gofrestr dai a chanfuwyd pedwar aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr drwy'r broses hon. O'r pedwar a ganfuwyd, nid yw tri yn byw yng Ngheredigion ar hyn o bryd ac mae un yn byw mewn llety brics a morter. Mae dau aelod arall o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn llety brics a morter ers nifer o flynyddoedd ac wedi gwneud hynny ers cyn bod modd canfod ethnigrwydd drwy broses ymgeisio'r gofrestr dai.

Yn ôl y disgwyl, bu'n anodd iawn lleoli'r boblogaeth darged ar gyfer yr asesiad hwn. Cafodd data o Gyfrifiad 2011 ac unrhyw wybodaeth berthnasol a gasglwyd o adrannau'r Cyngor, gan gynnwys Addysg, Ysgolion a Thai, cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector eraill eu dwyn ynghyd i geisio creu'r ffrâm sampl orau bosibl, ond dim ond 5 aelwyd bosibl a nodwyd ac yn anffodus roedd 4 o'r rhain yn amharod i gymryd rhan yn yr arolwg. Cysylltwyd ag Urdd Siewmyn Prydain Fawr (The Showmen's Guild of Great Britain) ond ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ganddynt.

Cafwyd ymateb gan un unigolyn, a oedd wedi nodi nad oedd yn hapus gyda'i lety presennol. Fodd bynnag, cyn cwblhau'r asesiad, symudodd yr unigolyn hwnnw allan o'r sir.

O'r nifer fach iawn o holiaduron a ddychwelwyd a'r cyfweliadau/ymweliadau safle a gynhaliwyd, yn enwedig y rheiny yn sgil pandemig Covid-19, ymddengys nad oes angen ar gyfer safle tramwy neu safle parhaol o fewn y sir.

## 2. Cyflwyniad

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig o fewn y gymdeithas yng Nghymru, ac yn dioddef o allgáu cymdeithasol, hiliaeth, anfantais addysgol a disgwyliad oes byrrach na'r gymuned sefydlog. Caiff effaith eu hamodau byw ar eu hiechyd ei drafod mewn adroddiad gan Fudiad y Teithwyr, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd Cynhwysiant Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ar 8 Ionawr 2016.[1] Daeth yr adroddiad i'r casgliadau canlynol:

- nododd dau o bob tri o'r Sipsiwn a Theithwyr fod eu hiechyd yn dila, yn wael neu'n wael iawn
- mae amodau byw Sipsiwn a Theithwyr yn cyfrannu'n sylweddol at eu hiechyd corfforol a meddyliol
- mae amgylchedd byw, ansicrwydd ynghylch llety a gwahaniaethu cymunedol yn arwain at ddirywiad pellach iechyd gwael Sipsiwn a Theithwyr
- mae angen gweithio mewn partneriaeth agosach ar draws iechyd a meysydd perthnasol eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r berthynas rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog yn ogystal â cheisio hybu gwell dealltwriaeth rhwng cymunedau. Yn hytrach na

> "byw'n gythryblus ym mhresenoldeb ei gilydd [gall y gymuned sefydlog a Sipsiwn a Theithwyr] fyw'n gymunedau cydlynol, gan dderbyn gwahaniaethau, ond heb ganiatáu i'r gwahaniaethau hynny ddiffinio natur y rhyngweithio rhwng grwpiau."[2]

Mae'r Asesiad hwn o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.

[1] 'Impact of insecure accommodation and the living environment on Gypsies' and Travellers' health' ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/gypsy-and-traveller-health-accommodation-and-living-environment
[2] 'Travelling to a better future', ar gael yn http://www.romaniarts.co.uk/wp-content/uploads/2012/06/110928gypsytravelleren.pdf

## 3. Y fframwaith rheoleiddio

### Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' (Mehefin 2018) yn disodli '*Teithio i Ddyfodol Gwell*: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr' (2014) ac mae'n amlinellu gweledigaeth Cymru ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn yn rhan o'r gymdeithas yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu, bod cynlluniau'n cael eu paratoi a'u gweithredu yn fwy strategol ar eu cyfer a bod eu mynediad at wasanaethau yn cael ei wella. Mae'n cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol i geisio hwyluso ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr a, thrwy hynny, wella mynediad at wasanaethau i aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, a chyflwyno safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, lle bo angen, a bod hyn yn digwydd ochr yn ochr â rhaglen Grant Cyfalaf Safleoedd Llywodraeth Cymru.

O dan Adran 101 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofyniad statudol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ac yn ddyletswydd i ddarparu safleoedd pan fo'r asesiad yn nodi'r angen am ddarpariaeth o'r fath. Rhaid cynnal yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr o leiaf unwaith bob pum mlynedd ac yn y cyd-destun hwn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr'[3] er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i gynhyrchu asesiad cydnerth o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal hwy.

Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cadarnhau'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' drwy Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sef:

> (a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:
>
> > (i) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; ac
> >
> > (ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (p'un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); ac
>
> (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.[4]

Golyga hyn y dylai pob unigolyn o'r fath gael ei ystyried i fod â 'Statws Sipsi' yn nhermau cynllunio. Ceir crynodeb llawn o'r diffiniadau yn y Tabl yn Atodiad 1.

Mae Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn darparu mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n byw ar safleoedd, ac yn cadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdod Lleol yn ogystal ag yn amlinellu'r dulliau sydd ar gael i Awdurdod

---

[3] Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynnal-asesiadau-o-anghenion-llety-sipsiwn-a-theithwyr.pdf

[4] Mae i'r term 'cartref symudol' ("mobile home") yr ystyr y rhoddir iddo yn Adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Lleol gydymffurfio â'r gofyniad newydd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i ateb unrhyw angen a nodwyd. Mae'r dulliau hynny wedi'u crynhoi isod:

1) yr Awdurdod Lleol yn darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
2) cynorthwyo aelwydydd i ddatblygu safleoedd preifat hyfyw.
3) cynorthwyo aelwydydd i ddatblygu dulliau hyfyw dan arweiniad y gymuned megis Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

Mae'r opsiwn o Awdurdod Lleol yn darparu safle Sipsiwn a Theithwyr yn cynnig cyfleoedd i'r Cyngor reoli sut mae'n dyrannu lleiniau, yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a pholisïau dyraniad tai. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig Grant Cyfalaf Safleoedd a fydd ar gael i awdurdodau lleol at ddiben creu a datblygu safleoedd o hyd at £1.5 miliwn y safle.

Wrth ymrwymo i'r ddyletswydd o wneud darpariaethau ar gyfer unrhyw angen a nodwyd am lety, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddilyn y cyngor a nodir yng Nghylchlythyr Cynllunio Llywodraeth Cymru 016/2014 'Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu' mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: 'Cynllunio ar gyfer safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn' sydd wedi disodli Cylchlythyr 30/2007 'Canllawiau i sipsiwn a theithwyr sydd am gynllunio eu safleoedd carafanau eu hunain' a Chylchlythyron 78/91 'Perfformwyr Teithiol' a 2/94 'Safleoedd Sipsiwn a Chynllunio'.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru 'Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' yn rhoi'r cyngor ymarferol gofynnol i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu safleoedd yn addas i'r diben. Bwriad y canllawiau yw cynorthwyo Awdurdodau Lleol ac eraill i ddatblygu a gwella safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal, a bydd cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn ffurfio rhan o asesiad Llywodraeth Cymru o geisiadau ar gyfer cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'r gofynion ar gyfer asesu anghenion llety a nodi safleoedd sipsiwn a amlinellir uchod wedi'u hadleisio ym Mharagraff 4.2.35 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) sy'n datgan: '*Rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a neilltuo safleoedd i ddiwallu'r angen dynodedig. Os yw Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi angen nas diwallwyd, dylai awdurdod cynllunio neilltuo digon o safleoedd yn ei gynllun datblygu er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r gofynion safle dynodedig ar gyfer defnydd preswyl a/neu dramwy. Bydd angen i awdurdodau cynllunio ddangos bod safleoedd yn addas ar gyfer eu datblygu a bod modd eu darparu yn unol â'r amserlenni a nodwyd*.'

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ym mis Mai 2020 mewn perthynas â symud Sipsiwn a Theithwyr o safle diawdurdod yn ystod Pandemig Covid-19 a'r Awdurdod Lleol wedi ystyried hyn. Roedd y canllawiau'n amlinellu'r cynnydd yn yr anawsterau y gallai'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig a hynny wedi arwain at newidiadau i'r canllawiau arferol a oedd ar waith. Hysbyswyd yr Awdurdod Lleol na ddylent droi gwersylloedd diawdurdod allan oni bai bod risg sylweddol i'r cyhoedd yn deillio o barhau i fod yn y gwersyll. Os mai troi allan oedd yr unig opsiwn, roedd hi'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddod o hyd i leoliad arall ar gyfer y Sipsiwn a Theithwyr. Roedd lles y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn flaenoriaeth hefyd gan fod y canllawiau'n cyfeirio at ddarparu mwy o doiledau a

blociau cawod yn ogystal â sicrhau bod archwiliadau lles yn cael eu cynnal o fewn 24 awr ar ôl cael gwybod am y gwersyll. Roedd y bwlch rhwng carafanau hefyd yn elfen bwysig i'w hystyried yn ystod y pandemig, mae'r canllawiau'n cyfeirio at yr angen i gael bwlch o 6 metr i sicrhau y gallai preswylwyr ynysu.


## Cynllun Datblygu Lleol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion 2007-2022 ym mis Ebrill 2013. Mae Polisi LU04: 'Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai' y Cynllun yn amlinellu'r meini prawf sydd i'w defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr neu ar gyfer estyniadau i safleoedd sy'n bodoli eisoes. Mae'r polisi'n cydnabod yr angen i:

> "ganiatáu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a chaniatáu carafanau Sipsiwn a Theithwyr pan fo tystiolaeth o'r angen am safleoedd aros parhaol neu dros dro; ar yr amod fod seilwaith mynediad a chyfleustodau ar gael; cânt eu lleoli fel eu bod yn cynnig mynediad at wasanaethau addysg ac iechyd ac yn sicrhau diogelwch y deiliaid; ac y cânt eu hadeiladu'n unol â'r safonau sydd wedi'u nodi ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr"
> (Cyngor Sir Ceredigion, 2013, Cyfrol 1, t. 77)

Gan na ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth o angen am safle cyhoeddus yng Ngheredigion yn yr asesiadau o anghenion Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd yn 2011 ac yn 2015/16, ac na amlygwyd chwaith fod poblogaethau digonol yn teithio trwy Geredigion i gyfiawnhau datblygu safle tramwy parhaol, nid oes unrhyw ddyraniadau safle penodol yn y CDLl ar hyn o bryd. Felly, mae'r CDLl yn defnyddio meini prawf a geir mewn polisi wrth ystyried cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

O ran y CDLl, mae'r sianeli i'w dilyn er mwyn i asesiadau o lety lywio'r broses gynllunio wedi'u hamlinellu yn Ffigur 1 isod.




**Ffigur 1: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 2018)**

Bydd yr asesiad hwn yn llywio'r paratoi ar gyfer CDLl newydd Ceredigion ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021) paragraff 4.2.35 yn datgan: '*Wrth lunio polisïau, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol, cynrychiolwyr cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a thirfeddianwyr mewn ardaloedd sy'n debygol o fod yn briodol ar gyfer darparu safleoedd. Dylid cynnal yr ymgynghoriad mewn ffordd sy'n gyson â Chynllun Cynnwys Cymunedau'r awdurdod cynllunio.*'

Nid yw'r asesiad hwn wedi nodi angen posibl am safle i Sipsiwn a Theithwyr.

Os cyfyd angen yn ystod cyfnod y cynllun, caiff cynigion eu hystyried er mwyn cydymffurfio â Pholisi LU04. Mae'r awdurdod wedi adolygu polisi LU04 yn y CDLl ac mae'n dal i ystyried ei fod yn addas i'r diben.

*Polisi LU04:*
*Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai*

*Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion tai ar sail asesiad cyffredinol o'r anghenion hynny fel a ganlyn:*
*1. Trwy ganiatáu safleoedd newydd ar gyfer sipsiwn a theithwyr a chaniatáu carafanau sipsiwn a theithwyr:*
*i. lle mae tystiolaeth o'r angen am safleoedd aros parhaol neu dros dro;*

*ii. ar yr amod fod seilwaith mynediad a chyfleustodau ar gael;*
*iii. cânt eu lleoli fel eu bod yn cynnig mynediad at wasanaethau addysg ac iechyd ac yn sicrhau diogelwch y deiliaid; a*
*iv. chânt eu hadeiladu'n unol â'r safonau sydd wedi'u nodi ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.*

Mae cynllun newydd 2018-2033 wedi'i ohirio yng Ngheredigion ar hyn o bryd yn rhannol oherwydd effaith pandemig Covid-19 ac yn fwy diweddar oherwydd y canllawiau cynllunio interim a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â ffosfad ar afon Teifi sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig.[5] I bob pwrpas, mae'r canllawiau hyn yn rhoi embargo ar ddatblygiadau yn y dyfodol ar draws ardal yr effeithir arni yn y sir, sef 44.6% o dir Ceredigion, ac ar unrhyw ddatblygiadau a allai gynyddu dŵr gwastraff, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Ar hyn o bryd, mae tîm y CDLl yn canolbwyntio ar ddatblygu Bwrdd Rheoli Maetholion ac yn chwilio am atebion a mesurau lliniaru ar gyfer Ffosffadau a maetholion eraill ledled y sir.

[5] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws

## 4. Y sefyllfa bresennol

Mae'r ddarpariaeth bresennol o ran llety yng Ngheredigion fel a ganlyn:

- Nid oes unrhyw safleoedd awdurdod lleol yn y sir ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr neu Siewmyn.

- Mae un safle mewn perchnogaeth breifat, sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio, ac sydd â lle i bum carafán. Bydd pob un o'r llefydd yn darparu ar gyfer anghenion cynyddol y teulu am y cyfnod hyd at 2033.

- Mae tair aelwyd o Sipsiwn a Theithwyr y gwyddys amdanynt, gydag anghenion y teuluoedd hyn wedi eu diwallu gan lety brics a morter.

- Ceir un safle diawdurdod a phan ymwelir â'r safle o dro i dro, gwelwyd bod yno ddwy garafán statig a dwy garafán deithiol, ond yn ôl cyfrif y carafanau, mae hyd at 13 carafán wedi meddiannu'r safle wrth fonitro mewn blynyddoedd blaenorol. Daw mewnlifiad carafanau yn bennaf yn ystod y cyfnod Mawrth-Hydref.

- Mae gwersylloedd diawdurdod achlysurol wrth i grwpiau o Deithwyr deithio drwy Geredigion er bod hyn yn ysbeidiol ei natur ac wedi bod yn gyfyngedig iawn yn sgil pandemig Covid-19 dros y ddwy flynedd ddiwethaf o fonitro.

## 5. Methodoleg yr Astudiaeth

Oherwydd mai prin oedd yr angen a nodwyd mewn asesiadau blaenorol, her fawr oedd sefydlu cysylltiad gydag aelwydydd a fyddai cytuno i gael eu cyfweld ar gyfer Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2019. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd grwpiau llywio drwy gydol 2019 ac ymysg y sawl a fynychodd roedd y canlynol:

Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ceredigion
Swyddog Strategaeth Dai a Monitro, Cyngor Sir Ceredigion
Cynghorwyr /Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y portffolios canlynol:

- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai
- Economi ac Adfywio (sy'n cynnwys Cynllunio)
- Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd

Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, Cyngor Sir Ceredigion
Cynorthwywr Rheoli Datblygu (Cydymffurfio), Cyngor Sir Ceredigion
Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (Cydymffurfio), Cyngor Sir Ceredigion
Swyddog Iechyd Amgylcheddol sy'n gyfrifol am y cyfrif carafanau, Cyngor Sir Ceredigion
Rheolwr Perfformio ac Ymchwilio, Cyngor Sir Ceredigion
Swyddog Ymchwil, Cyngor Sir Ceredigion
Cynorthwywr Ymchwil, Cyngor Sir Ceredigion
Swyddog Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion
Rheolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion
Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir Ceredigion
Rheolwr Gwasanaethau (Rheoli Datblygu), Cyngor Sir Ceredigion
Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion
Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
Cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Hywel Dda
Cynrychiolydd o Teithio Ymlaen
Cynrychiolydd o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o Sir Benfro
Cynrychiolydd o Heddlu Dyfed Powys

Yn anffodus, nid oedd unrhyw un o aelodau'r gymuned Teithwyr a Sipsiwn yng Ngheredigion yn barod i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y grŵp llywio. Mynychwyd y cyfarfodydd gan gynrychiolydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro i roi dealltwriaeth ehangach ond yn anffodus nid oedd yr unigolyn hwnnw yn gwybod am gyswllt yng Ngheredigion y gallem gysylltu â nhw i ofyn iddynt fynychu.

Roedd pawb oedd ynghlwm â'r broses ymgysylltu â'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn deall Diffiniad Deddfau Tai o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Roeddent i gyd wedi'u cynnwys yng ngrŵp llywio Sipsiwn a Theithwyr ac yn rhan o'r gwaith yn paratoi'r asesiad, yn enwedig o ran defnyddio gwybodaeth gynllunio.

Ymrwymodd Cyngor Sir Ceredigion i ddiweddaru'r astudiaeth yn fewnol, ar sail sgiliau ac arbenigedd staff a oedd wedi cwblhau asesiadau blaenorol a grŵp llywio yr Asesiad Llety presennol a'r ddeialog reolaidd ymysg rhanddeiliaid perthnasol yng Ngheredigion. Cadwyd mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r awdurdodau cyfagos, yn enwedig Sir Gâr a Sir Benfro. Mynychodd y Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol

Rhanbarthol y grŵp llywio ar gyfer Ceredigion ac roedd yn gallu cynnig trosolwg ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

### Ffynonellau data

Cynhaliwyd astudiaeth ddesg i asesu'r holl ffynonellau data eilaidd a allai gynorthwyo i nodi cysylltiadau posibl ac estynnwyd cwmpas yr astudiaeth wrth i bosibiliadau eraill ddod i'r amlwg.

### Cyfrifiad 2011

Er nad yw'n darparu unrhyw wybodaeth am Deithwyr Newydd neu Siewmyn, am y tro cyntaf erioed yn 2011 roedd y dewisiadau grŵp ethnig yn y Cyfrifiad yn cynnwys y categori 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig,' gan ddarparu'r man cychwyn ar gyfer asesu maint posibl y boblogaeth darged yn y sir. Nododd cyfanswm o 74 o unigolion a breswyliai fel arfer yng Ngheredigion eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig ac mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn dangos dadansoddiad o'r boblogaeth hon fesul ward.

Gan mai sir wledig â phoblogaeth wasgaredig yw Ceredigion, mae wardiau yn tueddu i gwmpasu ardaloedd gweddol fawr ac nid oes unrhyw grynhoad amlwg o'r boblogaeth darged mewn unrhyw leoliad penodol. Y nifer mwyaf o unigolion a gofnodwyd mewn unrhyw ward yn y sir oedd 12, mewn 23 o wardiau cofnodwyd pump neu lai o breswylwyr a oedd yn perthyn i'r grŵp ethnig hwn ac nid oedd unrhyw aelodau o'r grŵp ethnig hwn mewn 14 allan o'r 40 ward.

**Tabl 1: Nifer yr unigolion a nododd eu bod yn Sipsi neu'n Deithiwr Gwyddelig, fesul Ward**

| Ward 2011 | Pob preswylydd arferol | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig |
|---|---|---|
| W05000357 : Aberaeron | 1,422 | 0 |
| W05000358 : Aber-porth | 2,374 | 7 |
| W05000359 : Aberteifi-Mwldan | 1,784 | 0 |
| W05000360 : Aberteifi-Rhyd-y-Fuwch | 1,226 | 0 |
| W05000361 : Aberteifi-Teifi | 1,174 | 1 |
| W05000362 : Aberystwyth Bronglais | 2,075 | 1 |
| W05000363 : Aberystwyth Canol/Central | 2,471 | 4 |
| W05000364 : Aberystwyth Gogledd/North | 2,641 | 4 |
| W05000365 : Aberystwyth Penparcau | 3,122 | 0 |
| W05000366 : Aberystwyth Rheidol | 2,731 | 1 |
| W05000367 : Beulah | 1,627 | 0 |
| W05000368 : Borth | 2,078 | 0 |
| W05000369 : Capel Dewi | 1,293 | 0 |
| W05000370 : Ceulanamaesmawr | 1,910 | 1 |
| W05000371 : Ciliau Aeron | 1,974 | 1 |
| W05000372 : Faenor | 2,545 | 1 |
| W05000373 : Llanbedr Pont Steffan | 2,970 | 12 |
| W05000374 : Llanarth | 1,616 | 1 |
| W05000375 : Llanbadarn Fawr-Padarn | 1,042 | 1 |
| W05000376 : Llanbadarn Fawr-Sulien | 2,338 | 1 |
| W05000377 : Llandyfriog | 1,835 | 1 |


| Ward 2011 | Pob preswylydd arferol | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig |
|---|---|---|
| W05000378 : Llandysilio-gogo | 1,979 | 0 |
| W05000379 : Llandysul: y dref | 1,439 | 3 |
| W05000380 : Llanfarian | 1,541 | 0 |
| W05000381 : Llanfihangel Ystrad | 2,037 | 8 |
| W05000382 : Llangeitho | 1,459 | 0 |
| W05000383 : Llangybi | 1,484 | 4 |
| W05000384 : Llanrhystud | 1,562 | 0 |
| W05000385 : Llansanffraed | 2,386 | 2 |
| W05000386 : Llanwenog | 1,854 | 2 |
| W05000387 : Lledrod | 2,209 | 3 |
| W05000388 : Melindwr | 2,020 | 1 |
| W05000389 : Ceinewydd | 1,082 | 0 |
| W05000391 : Pen-parc | 2,308 | 4 |
| W05000390 : Penbryn | 2,045 | 1 |
| W05000392 : Tirymynach | 1,901 | 0 |
| W05000393 : Trefeurig | 1,771 | 0 |
| W05000394 : Tregaron | 1,213 | 2 |
| W05000395 : Troedyraur | 1,310 | 2 |
| W05000396 : Ystwyth | 2,074 | 5 |

DS: Er mwyn gwarchod rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae cofnodion wedi cael eu cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Caiff rhai cyfrifiadau eu heffeithio, yn arbennig cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol isaf.

*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2011*

Cofnodir y 74 unigolyn hyn mewn 29 o aelwydydd, gyda 21 ohonynt yn byw mewn tai neu fyngalos, 5 mewn fflatiau, maisonettes neu mewn rhandai a dim ond tri mewn carafanau neu strwythurau symudol neu dros dro eraill. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol bod ffigurau'r Cyfrifiad yn tanamcangyfrif cyfanswm y boblogaeth, a hynny am amryw resymau.

Mae'n bwysig nodi nad oedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn byw mewn carafanau. Yn y sir gyfan, mae Cyfrifiad 2011 yn cofnodi bod 389 o aelwydydd yn byw mewn carafán neu gartref symudol arall. Er ei bod efallai yn demtasiwn i gymryd bod byw mewn carafán yn golygu bod gan rywun ffordd o fyw nomadaidd neu draddodiad diwylliannol o nomadiaeth, nid yw tystiolaeth y Cyfrifiad yn cadarnhau hyn. Yng Ngheredigion, mae'n eithaf cyffredin i fyw mewn carafán ar y safle wrth adeiladu tŷ ac mae nifer o feysydd carafanau lle ceir preswylwyr parhaol nad yw'n cyfrif eu hunain yn aelodau o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.




*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2011*


**Ffigur 1: Dosbarthiad Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig fesul Ward o Gyfrifiad 2011**

## Y Cyfrif Carafanau Chwe-misol

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnal cyfrif carafanau chwe-misol ar ddyddiad penodol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae canlyniad y cyfrif diweddaraf ym mis Gorffennaf 2021 yn cofnodi nad oedd unrhyw garafanau ar safleoedd awdurdodedig na safleoedd diawdurdod. Ers mis Gorffennaf 2007, nodwyd mwyafrif o 10 safle diawdurdod mewn unrhyw gyfrif, sy'n rhoi rhyw arwydd o dueddiadau parthed yr angen am leiniau tramwy. Ers 1991 ni chofnodwyd mwy na thair carafán ar ddeg mewn unrhyw flwyddyn ac mewn rhai blynyddoedd eraill ni chofnodwyd yr un garafán o gwbl.


Mae'r graff canlynol yn dangos nifer y carafanau ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod yng Ngheredigion rhwng Gorffennaf 2007 a Gorffennaf 2021. Mae'n glir o'r graff nad oes unrhyw safle awdurdodedig yng Ngheredigion ar wahân i'r un sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer 5 llain, a gafodd ei gyfrif yn ystod cyfrif carafanau mis Gorffennaf 2018. Mae hi'n amlwg y cafwyd cynnydd yn nifer y carafanau ar safleoedd diawdurdod rhwng 2016 a 2017, gan i nifer y carafanau gynyddu o 5 i 13 yn ystod yr haf ac mae wedi aros yn gyson ar 13 yn ystod y ddau haf dilynol. Digon tebyg oedd nifer y carafanau ar safleoedd diawdurdod yng Ngheredigion yn ystod Gorffennaf

2009 a Gorffennaf 2010, gyda 9 a 10 o garafanau wedi eu cyfrif yn y naill flwyddyn a'r llall. Er hynny, cafwyd gostyngiad sydyn yn nifer y carafanau ar safleoedd diawdurdod ers mis Ionawr 2020, gostyngodd i 2 ac yna roedd yn 0 ar gyfer y 3 chyfrif canlynol. Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y carafanau a gafodd eu cyfrif ar safleoedd diawdurdod yn ystod y cyfrif ym mis Ionawr a mis Gorffennaf yn dangos eu patrymau teithiol tymhorol i Geredigion yn ystod yr haf, gan y tuedda'r niferoedd i fod ar eu huchaf ym mis Gorffennaf pan gynhelir y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd. Eto, mae'r niferoedd cymharol isel o garafanau a gafodd eu cyfrif ar safleoedd diawdurdod ers 2007 yn amlygu'r ffaith bod nifer aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Ngheredigion yn isel ac mae hyn yn cyfateb i'r diffyg ymateb a gawsom i'n hymdrech i ymgysylltu.




*Ffynhonnell: Cyfrif Carafanau gan Lywodraeth Cymru (2007 – 2021)*

Mae'r graff hwn yn dangos nifer y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig a diawdurdod yng Ngheredigion rhwng Gorffennaf 2007 a Gorffennaf 2021. Mae'r un safle awdurdodedig a gofnodwyd yn y cyfrif yn ystod Gorffennaf 2018 yn cyfateb i'r 5 carafán a oedd wedi eu parcio yn y lleiniau yn y safle preifat oedd â chaniatâd cynllunio. Wrth asesu'r newid yn nifer y gwersylloedd diawdurdod, mae'r graff hwn yn dangos yn glir bod pob un o'r 13 carafán ar y safleoedd diawdurdod a ddangosir yn y graff uchod wedi eu lleoli ar un safle gan mai dim ond un safle diawdurdod a gofnodwyd yn ystod cyfrif Gorffennaf 2018 a Gorffennaf 2019. Mae nifer y safleoedd yng Ngheredigion wedi bod yn gyson isel ers 2017 ond wedi lleihau eto i 0 safle ers mis Gorffennaf 2021.




*Ffynhonnell: Cyfrif Carafanau gan Lywodraeth Cymru (2007–2021)*

Fodd bynnag, gan mai dim ond y gwersylloedd hynny y mae'r awdurdod yn ymwybodol ohonynt sydd wedi'u cofnodi yn y cyfrif carafanau ac oherwydd ei fod wedi ei gyfyngu i ddau ddiwrnod y flwyddyn, ni ellir ystyried ei fod yn rhoi asesiad cywir o anghenion llety na phatrymau teithio. Gan ei fod yn cofnodi carafanau yn hytrach nag aelwydydd, ni all ganfod unrhyw achosion o orboblogi. Nid yw ychwaith fel rheol yn gofyn am ymgysylltu â'r meddianwyr ac felly efallai nad yw rhai gwersylloedd yn gysylltiedig o gwbl â'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## System Fyw ar gyfer Cyfrif Carafanau

Ers yr asesiad diwethaf yn 2015, datblygwyd y system fyw ar-lein ar gyfer cyfrif carafanau ac mae wedi darparu ffordd well o fonitro patrymau mudo Sipsiwn a Theithwyr, gan fod gwersylloedd yn cael eu cofnodi mewn amser real yn hytrach nag ar amserau penodol yn y flwyddyn. Mae monitro'r gwersylloedd hefyd yn cynnig darlun mwy cynhwysfawr i'r Cyngor o'r adegau a'r modd y defnyddir llwybrau tramwy a chan bwy (atodiad 5).

Wrth asesu'r cyfrif byw ar gyfer carafanau gwelwyd bod nifer o garafanau wedi eu cofnodi ar Dir Comin Llangybi. Mae'r cofnodion hynny'n cyfateb i ddau unigolyn a oedd yn byw mewn gwersylloedd diawdurdod ar y Comin am flynyddoedd. Symudodd y rhain i dai cymdeithasol ym mis Ebrill 2016 ac felly caewyd y cofnod ar y system yn 2017. Mae cilfan Llangybi hefyd wedi ei chofnodi ar y system, defnyddid y gilfan hon yn aml gan un o'r perchnogion carafán y cofnodwyd eu bod yn aros ar y comin. Byddent yn achlysurol yn teithio i Aberystwyth, ac felly byddent yn penderfynu gwersylla yn y gilfan yn hytrach na dychwelyd i'r comin.

Nodwyd Corner Wood yn gofnod yn y system ar sawl achlysur. Fe'i nodwyd yn wersyll diawdurdod ond wedi ymholiadau pellach, deallwyd nad yw'r meddianwyr yn hawlio statws Sipsiwn neu Deithwyr, felly diystyrwyd y gwersyll hwn o'r asesiad. Mae hanes hir o orfodaeth ar y safle hwn, a hyn yn parhau yn dilyn gwrthod cais cynllunio ar y safle.

Cofnodwyd grŵp o deithwyr ym Maes Parcio Stryd y Cei, Aberteifi ar 15/06/2017 pan nodwyd 8 o garafanau a 5 fan. Roeddent yn disgwyl am grŵp arall i gyrraedd o Sir Fôn ac yn ddiweddarach fe symudasant i Barc Busnes Llandysul. Mae'r cofnod sy'n cyfeirio at Landysul yn datgan fod 16 o garafanau wedi'u cofnodi, felly mae'n debyg bod yr unigolion o Sir Fôn wedi ymuno â'r grŵp y cyfeiriwyd ato uchod erbyn iddynt symud i Landysul. Dim ond rhwng 13/07/2017 a 20/07/2017 yr oeddent ar y safle a dim ond aros yno wrth iddynt fynd ar eu taith yr oeddent. Mae hyn yn amlygu patrymau tramwyo yn hytrach nag yn amlygu'r angen am safle awdurdodedig yng Ngheredigion.

Roedd tri chofnod ar wahân sy'n amlygu'r ffaith y gall fod angen safle tramwy yng Ngheredigion yn hytrach na safle preswyl parhaol.

- Cofnodwyd 11 o garafanau ar dir Parc Teifi ar 21/07/2017, er y caewyd y cofnod ar 3 Awst 2017, felly mae'n debyg mai ar eu taith yr oeddent ac nad oes angen safle awdurdodedig. Tir Llywodraeth Cymru yw'r stad ddiwydiannol lle'r oeddent yn aros.
- Cofnodwyd 11 o garafanau ar feysydd chwarae Penweddig ar 25 Gorffennaf 2018 ond roeddent wedi gadael y safle o fewn wythnos yn dilyn gwrandawiad llys ar 1 Awst. Mae'n debyg mai ar eu taith yr oedd meddianwyr y carafanau hyn hefyd, gan fod y dyddiad yn weddol agos at ddyddiad Sioe Frenhinol Cymru, felly gallent fod yn anelu am Lanelwedd.
- Cofnodwyd 6 o garafanau ym maes Parcio Lôn Rookery am 4 diwrnod ar 3 Medi 2018. Gan fod y carafanau ar y safle am gyn lleied o amser, mae'n debyg mai ar eu taith yr oedd y bobl hyn ac wedi aros yn Llanbedr Pont Steffan wrth iddynt deithio i leoliad arall.

Yr unig wersyll diawdurdod ar y system fyw lle ceir cofnod o weithgareddau yw Plwmp. Cyfrifwyd 13 o garafanau ar y safle ym mis Gorffennaf 2018 ond roeddent wedi gadael erbyn mis Hydref 2018. Ers 2018 dim ond gwersylloedd ar safle Plwmp sydd wedi'u cofnodi ar y system fyw i gyfrif carafanau. Cofnodwyd 8 o garafanau ar y safle yn 2019, yna syrthiodd y nifer i 0 yn 2020 hyd at fis Gorffennaf 2021 – gallai hyn fod oherwydd pandemig Covid-19. Erbyn mis Awst 2021 cofnodwyd 6 o garafanau ar y safle er bod y rhain wedi gadael ers hynny gan fod 2 garafán symudol yno pan ymwelodd y Swyddog Tai ym mis Hydref 2021 ond nid oedd unrhyw un ar y safle. Mynychu gweithgareddau diwylliannol oedd y rheswm a roddwyd dros fod yn yr ardal ac felly mae'r ffaith eu bod yma am ychydig o fisoedd yn amlygu'r angen am safle tramwy i alluogi pobl sy'n mynychu digwyddiadau i aros am gyfnod o amser. Er hynny, mae'n glir eu bod yno am gyfnod estynedig o fisoedd gan fod cofnod arall ym mis Mawrth 2019 yn nodi bod 8 o garafanau ar y safle, gallai hyn olygu na fyddai safle tramwy yn cael ei ystyried yn briodol gan eu bod ar safle am gyfnod hwy na thri mis. Eto, credir bod aelodau amrywiol o'r teulu yn mynd a dod ac felly efallai eu bod ar y safle am lai na thri mis. Pe datblygid safle tramwy awdurdodedig, gellid monitro'r aelodau ar y safle drwy gytundeb rhwng y cyngor a'r preswylwyr. Yn sgil ymgysylltu pellach â phreswylwyr y safle ddiwedd mis Gorffennaf 2021, sylweddolwyd na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio safle tramwy gan eu bod bob amser wedi dod i Plwmp ac na fyddent am aros mewn unrhyw leoliad arall. Mae trafodaethau wedi bod ar y gweill gyda'r preswylwyr dros dro a'r tirfeddiannwr ond nid ydynt wedi arwain at fawr ddim datblygiad o ran rheoleiddio'r safle. Mae'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn amrywiol ac yn wahanol dros yr haf gan eu bod yn y bôn yn defnyddio'r safle fel llain

gwyliau o fath gyda nifer o deuluoedd yn defnyddio'r safle ar wahanol adegau, mae'r tirfeddiannwr wedi bod yn wael ei iechyd ac wedi ceisio lleihau nifer yr ymwelwyr ond yn amharod ar hyn o bryd i reoleiddio'r safle drwy'r system gynllunio ac yn mynegi awydd cryf i gael llai o ddefnydd ar y safle dros amser.

Yn gyffredinol, mae lleoliadau'r gwersylloedd yn dangos bod yr angen pennaf am safle tramwy yn ne'r sir. Er hynny, y farn a wnaed yn glir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yw petai safle yn cael ei ddarparu yna ni fyddent yn dewis ei ddefnyddio, gan eu bod yn ymweld â'r lleoliad penodol ym Mhlwmp mewn cyd-destun hanesyddol ac nad ydynt yn chwilio am drefniant ffurfiol ar gyfer safle amgen gyda'r Awdurdod Lleol.

### Canfyddiadau Astudiaeth Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015/16

Yn dilyn cyflwyno gofyniad statudol Deddf Tai (Cymru) 2014 i gael Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, comisiynwyd asesiad yn 2015 a'i gynnal yn 2016. Ni ddaeth yr asesiad i'r penderfyniad bod angen i'r awdurdod lleol ddarparu safle parhaol na safle tramwy. Yn wir, darganfu'r astudiaeth fod Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn byw yn yr ardal yn aml wedi symud i Geredigion i gael mwy o ryddid ac felly ni fyddent yn dymuno byw ar safle cyhoeddus ochr yn ochr â theuluoedd eraill. Hefyd, tra bo gwersylloedd diawdurdod yn ymddangos yn y sir, yn arbennig oddeutu cyfnod Sioe Frenhinol Cymru, nid oedd tystiolaeth glir bod yr angen i'r graddau y gellid cyfiawnhau datblygu safle tramwy parhaol.

Nododd yr astudiaeth yr angen am ddau safle preifat yn ystod y pum mlynedd nesaf, gyda'r ddau safle yn gallu lletya un teulu yr un. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ddiwedd 2010 i un safle preifat gyda lle i bum llain ar gyfer teulu o Sipsiwn Teithiol ond gosodwyd amodau personol cyfyngedig a thros dro. Diddymwyd yr amodau hyn drwy'r broses apêl yn 2013 ac mae'r safle yn cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan y teulu, dan amodau safonol Sipsiwn a Theithwyr.

Nid oedd meddianwyr y safle arall yn ystyried eu hunain yn Sipsiwn nac yn Deithwyr ac felly ni chawsant eu hystyried yn yr asesiad.

### Tai a Digartrefedd

Ers yr asesiad blaenorol o lety Sipsiwn a Theithwyr, gwnaethpwyd cynnydd yn y dull o gofnodi ethnigrwydd wrth fonitro tai fforddiadwy yng Ngheredigion. O ganlyniad i hyn, cysylltwyd â'r adran dai i geisio canfod aelwydydd o Sipsiwn a Theithwyr sydd mewn llety brics a morter. Yn anffodus, o blith y pedwar unigolyn a ganfuwyd yn ein system, roedd tri yn byw y tu allan i'r sir ar y pryd ac felly yn annhebygol o fod eisiau llety yng Ngheredigion ac wedi cysylltu â'r pedwerydd, sef unigolyn oedrannus, canfuwyd bod yr unigolyn hwnnw eisoes wedi cofrestru ei angen am lety gwarchod brics a morter.

Roedd un o'r rhai a oedd yn byw ar y pryd mewn carafán breifat wedi'i rhentu ac islaw'r safon. Roedd wedi cofrestru'r angen am lety brics a morter a'r Gwasanaeth Tai/Digartrefedd yn delio â'r achos. Nid oedd yn glir a oedd yr ymatebydd yn bodloni'r diffiniad Sipsiwn a Theithwyr yn y Ddeddf Tai ai peidio, felly aethpwyd ati i geisio penderfynu ar hyn drwy gadarnhau a oedd hanes o nomadiaeth ac ati. Roedd yr Awdurdod Lleol wrthi'n gwneud ymholiadau ac yn cael barn gyfreithiol pan adawodd yr unigolyn y sir.

Yn anffodus, nid oes gan Deithwyr yr Oes Newydd ddosbarth diffiniedig yn ein cofrestrau, felly nid ydynt yn dangos fel grŵp penodol yn ein cofnodion ac felly mae'n anodd iawn ymgysylltu â nhw ledled y sir. At hynny, nid oes corff cynrychioliadol i gynorthwyo â'r ymgysylltu, nid yw swyddogion Teithio Ymlaen wedi gallu nodi unrhyw gyfleoedd. Felly, aethom ati i geisio estyn allan at Deithwyr Newydd drwy gyhoeddusrwydd megis hysbysebu'r asesiad ar y cyfryngau cymdeithasol a gosod posteri mewn mannau cyhoeddus, ond ni ddaeth dim o hyn. Mae data anghyflawn ar system gynllunio'r Cyngor wedi cymhlethu dadansoddi pellach i geisio nodi carafanau diawdurdod, felly hefyd nifer mawr iawn y cŵynion am garafanau gan nad ydynt wedi'u diffinio o ran a ydynt wedi'u meddiannu ai peidio, a ydynt yn seiliedig ar dwristiaeth, a ydynt yn rhai teithiol, yn rhai sefydlog, dros dro neu'n barhaol etc. O'r herwydd nid oes mecanwaith ffurfiol yn bodoli i hidlo Teithwyr yr Oes Newydd a allai fod heb eu hadnabod.

## Addysg

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wasanaethau addysg teithwyr yn gweithredu yng Ngheredigion: ni wnaethpwyd unrhyw geisiadau am gyllid perthnasol yn y blynyddoedd diwethaf a hynny ar sail y nifer fach iawn o blant o deuluoedd y nodir eu bod yn sipsiwn neu'n deithwyr yn y sir. Fel rhan o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr,

- Anfonwyd llythyron at bob ysgol yn y sir yn gofyn iddynt arddangos posteri yn yr ysgolion neu gyfleu gwybodaeth yn gyfrinachol i unrhyw deuluoedd y gwyddent amdanynt, gan roi gwybod iddynt am yr asesiad.
- Cysylltwyd â Chanolfannau Teulu yng Ngheredigion mewn ymgais i gael gwybodaeth am unrhyw deuluoedd Sipsiwn neu Deithwyr a fyddai efallai'n dymuno bod yn rhan o'r asesiad ond yn anffodus ni chafwyd unrhyw ymateb ganddynt.
- Cysylltwyd â chynrychiolydd o GO Wales, y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a'r Gwasanaethau Ieuenctid, gan y byddent hwy'n gwybod efallai am aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o fewn y system addysg, ond ni arweiniodd hyn at unrhyw drywydd newydd.

## Cynllunio a Gorfodi

Gofynnwyd i Swyddogion Rheoli Datblygu a Gorfodi ddarparu arweiniad ar batrymau teithio a cheisiadau cynllunio. Mae cydweithwyr cynllunio yn ymwybodol o'r Ddeddf a'r diffiniad drwy fod yn gysylltiedig â llunio'r asesiad a thrwy fod yn aelodau o Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr.

Aethpwyd ati'n systemig i edrych ar gofnodion i geisio penderfynu a oes angen ymchwilio ymhellach i unrhyw safleoedd penodol. Trefnwyd cyfarfodydd gyda'r tîm Rheoli Datblygu i drafod eu gwybodaeth am achosion yn gysylltiedig â Sipsiwn a Theithwyr ac a fyddai modd penderfynu ar unrhyw angen. Fel rhan gyfansoddol o'r grŵp llywio ac yn dilyn ymchwiliad helaeth i systemau data'r cyngor, penderfynwyd nad oedd yn ymarferol adolygu pob achos yn ymwneud â charafanau o ystyried y nifer fawr o safleoedd carafanau, a cheisiadau a chwynion gorfodi cysylltiedig yng Ngheredigion. Fodd bynnag, ymchwiliwyd i'r system gynllunio fewnol am gyfnod o 5 mlynedd rhwng 2016–2021 gan chwilio am dermau yn ymwneud â charafanau a dychwelwyd y canlyniadau canlynol:

1. 105 o geisiadau cynllunio – y mwyafrif yn ymwneud â chael carafán breswyl dros dro wrth wneud gwaith adeiladu, darparu carafanau fel llety ategol i annedd neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â busnes yn ymwneud â charafanau. Roedd nifer fach o dystysgrifau yn ymwneud â chadw carafanau fel llety preswyl (dim un yn nodi i fod yn Sipsiwn a Theithwyr).
2. 111 o ymholiadau gorfodi yn ymwneud â'r term carafán, mae'n ddigon posibl bod gweithgarwch ar achosion o'r fath yn dal ymlaen, ond mae diffygion hysbys yn ein hadnoddau gorfodi yn golygu bod achosion yn cael eu blaenoriaethu yn uchel, canolig ac isel, a dim ond y rhai yn y categori blaenoriaeth uchel sy'n cael eu dilyn.
3. 3 apêl mewn perthynas â charafanau.

Cyfwelwyd â Rheolwr y Gwasanaeth Rheoli Datblygu, Uwch Swyddogion a swyddogion cynllunio y mae llawer ohonynt yn gynllunwyr tref siartredig a chanddynt dros 50 mlynedd o brofiad rhyngddynt. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn i ganfod yn eu profiad hwy oll a allent nodi unrhyw achosion (cynllunio, gorfodi ac apeliadau yn y 5 mlynedd blaenorol) a allai fod yn berthnasol. Yn ogystal, ystyriwyd y diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys diffiniad Teithwyr yr Oes Newydd fel yr amlinellwyd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i dynnu sylw at achosion posibl. Hyd yma nid yw hyn wedi arwain at nodi unrhyw gymuned arall Sipsiwn a Theithwyr/Oes Newydd yn y sir.

Prif ganlyniad y cyfarfod gyda'r Rheolwyr Datblygu oedd gwybodaeth hanesyddol gan eu bod yn gallu darparu gwybodaeth gefndir ar y safle preifat awdurdodedig a gafodd ganiatâd ym mis Rhagfyr 2010. Cafodd cais arall i newid yr amodau ei wrthod gan yr awdurdod, ond ei ganiatáu ar Apêl ym mis Mawrth 2013.

Cyhoeddwyd hysbysiad gorfodi yn 2001 ar y datblygiad diawdurdod ym Mhlwmp a chanddo 8 carafán ar y safle yn yr haf, fodd bynnag ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu pellach. Nid yw'r Cyngor am gymryd camau gweithredu pellach hyd nes bod sylw wedi'i roi i'r anghenion hynny yr ymddengys eu bod yn codi o'r safle, mewn sawl ffordd efallai y byddai'n ddoeth mynd ar drywydd ymagwedd 'safle a oddefir'.

## Asiantaethau Eraill

Prosiect Cymreig yw Teithio Ymlaen sydd â'r nod cyffredinol o weithio ochr yn ochr â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y cyfle i fynegi eu hanghenion, yn ogystal â rhoi cyngor iddynt am eu hawliau. Gan fod eu cylch gwaith yn cynnwys y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Ngheredigion, cysylltodd ymchwilwyr â hwy'n uniongyrchol. Fodd bynnag, er bod staff y prosiect yn gallu gweithredu fel cyfryngwyr i hwyluso ymweliadau safle, nid oeddent yn gallu darparu unrhyw gysylltiadau ychwanegol gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o fewn y sir. Ymwelodd staff Teithio Ymlaen â dwy aelwyd gyda'r Cynorthwywr Ymchwil, gyda'r nod o gwblhau'r holiaduron, er bod un ymweliad yn aflwyddiannus gan nad oedd y Teithwyr ar y safle ar y pryd.

Cysylltwyd ag Urdd Siewmyn Prydain Fawr (The Showmen's Guild of Great Britain) i sefydlu llinell gyfathrebu ffurfiol gyda'r grŵp hwn, ond ni chafwyd unrhyw ymateb ac felly ni chafwyd unrhyw drywydd newydd.

## Cynnal yr asesiad

Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellwyd uchod.


Roedd y cyfrif carafanau yn fan cychwyn amlwg ar gyfer yr holiadur a'n nod oedd cynnal cynifer o gyfweliadau â phosibl ar yr un pryd â'r cyfrif ym mis Gorffennaf 2019. Yn ystod y cyfrif ym mis Gorffennaf nodwyd un gwersyll diawdurdod yng Ngheredigion ac yn anffodus roedd y menywod ar y safle yn gwrthod siarad gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am gwblhau cyfrif y carafanau, felly ni chwblhawyd unrhyw holiaduron. Yna ceisiodd y Cynorthwywr Ymchwil ymweld â'r safle unwaith eto ynghyd â chynrychiolwyr o Teithio Ymlaen ond roedd y safle'n wag yn ystod yr ymweliad hwnnw. I ddechrau roedd disgwyl i'r cyfnod cyfweld barhau o fis Gorffennaf i fis Hydref 2019 ond estynnwyd hwn ddwywaith tan ddiwedd mis Tachwedd 2019 oherwydd y lefelau ymateb isel. Yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru ceisiwyd ymgysylltu pellach, fodd bynnag rhwystrwyd hyn gan y cyfyngiadau a oedd ar waith yn sgil pandemig Covid-19. Ers i'r cyfyngiadau lacio yn 2021 mae ymgysylltu â safleoedd wedi bod yn fwy ffrwythlon ac mae manylion yr ymweliadau a'r sgyrsiau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 a 3.

### Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad

Roedd cyhoeddusrwydd i'r asesiad yn allweddol. Roedd hi'n amlwg bod y diffyg ymgysylltiad cadarnhaol a fu yn y gorffennol rhwng yr Awdurdod Lleol ac aelodau'r gymuned yn broblem neilltuol.

Cynhyrchwyd posteri a thaflenni dwyieithog (gweler atodiad 4) yn amlinellu diben yr asesiad, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad e-bost cyswllt a oedd yn benodol ar gyfer y prosiect a dolen cod QR i wefan y Cyngor a oedd yn egluro amcan yr asesiad. Dosbarthwyd y deunyddiau hyn i bob meddygfa, ysgol a swyddfeydd y Cyngor yng Ngheredigion gyda chais i arddangos yr wybodaeth a throsglwyddo i dîm y prosiect fanylion cyswllt unrhyw unigolion a oedd wedi gofyn am wybodaeth bellach neu a ddymunai gymryd rhan.

Crëwyd tudalen we ddwyieithog ar wefan Ceredigion, fel y dangosir yn Ffigur 2 isod. Prif amcan y dudalen oedd darparu gwybodaeth ychwanegol am yr asesiad i ddarpar ymatebwyr. Rhoddwyd dolen ar y dudalen i'r Asesiad blaenorol, a gynhaliwyd yn 2015. Rhoddwyd gwybodaeth am yr asesiad hefyd ar ffrwd Twitter a thudalennau dwyieithog Facebook Cyngor Sir Ceredigion. Anfonwyd posteri yn ogystal at gynrychiolydd Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani i'w cynnwys ar eu cyfryngau cymdeithasol.



Cyngor Sir Ceredigion County Council

chwilio Chwilio

Preswyliwr Busnes Eich Cyngor Mapiau Cysylltwch â ni English

Preswyliwr / Tai / Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2019

Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2019

Eich Dyfodol, Eich Barn
I siarad gyda'r cyngor, plîs ffoniwch 01545 570881
E-bost: gt@ceredigion.gov.uk
Neu gallwch alw mewn i un o swyddfeydd y Cyngor

O dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr a darparu safleoedd ar eu cyfer os yw'r asesiad yn dangos bod angen nas diwallwyd am leiniau i gartrefi symudol. Felly, rydym ni angen siarad ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn teithiol i weld a oes angen llain breswyl, tŷ neu safle tramwy ar eich teulu.

Mae Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014 yn diffinio Sipsiwn a Theithwyr fel:

> Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:
>
> - personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; a
> - aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a
> - unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol

Mae'r asesiad i fod i gael ei gynnal pob pum mlynedd ond mae Cyngor Ceredigion yn cynnal un yn gynharach mewn cysylltiad â datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP).

Hoffwn ni siarad gyda chymaint o deuluoedd ac unigolion â phosib cyn y 12fed o Dachwedd 2019 er mwyn cynhyrchu gwerthusiad trwyadl o'r angen yng Ngheredigion. Bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu o'r arolwg yn cael ei defnyddio i ddynodi faint o leiniau sydd angen o fewn y sir nawr ac yn y dyfodol. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu yn cael ei chadw o dan ein hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan: Hysbysiad Preifatrwydd.

Bydd y GTAA yn dilyn y canllawiau statudol a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma: Cynnal asesiadau o anghenion llety sipsiwn a theithwyr: canllawiau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr asesiad, neu os hoffech chi gymryd rhan yn yr arolwg, e-bostiwch gt@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01545 570881.

Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2015-16

Cynhaliwyd Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2015-16 gyda'r nod o sefydlu'r angen i ddarparu lleiniau tramwy, dros dro neu barhaol dros y pum mlynedd nesaf a thros gyfnod pymtheng mlynedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2007-2022.

Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2015-16

Cysylltwch

Ein Ffurflen Cyswllt Ar-lein

Ffurflen Ar-lein

Manylion cyswllt llawn: Gwasanaethau Tai

Rydych yma

- Tai
- Coronafeirws: Addasiadau'r Gwasanaeth Tai
- Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2019
- Digartrefedd
- Eiddo Gwag
- Gwybodaeth a Chymorth Ariannol
- Gwybodaeth i Berchennog Tai
- Gwybodaeth i Denantiaid

**Ffigur 2: Gwe dudalen Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) Cyngor Sir Ceredigion**

Cysylltwyd â Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Swyddogion Ieuenctid Cyngor Ceredigion a swyddogion Cynllun Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) i holi a oeddent yn gwybod am unrhyw Sipsiwn a Theithwyr a allai fod mewn angen yng Ngheredigion ond ni ddarparwyd unrhyw drywydd newydd ganddynt.

## Dull Asesu

Y dull a ffefrid oedd cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, fodd bynnag pan wrthodwyd hynny neu gyfweliadau dros y ffôn, anfonwyd holiaduron drwy'r post a thrwy e-bost. Cafwyd dau ymateb yn sgil hynny. Gellir gweld y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn y cofnod cyfweliadau (atodiad 2).

Roedd aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd bellach yn byw mewn llety brics a morter ers yr asesiad diwethaf yn fodlon cael ei chyfweld a chwblhawyd holiadur ar ei rhan gan y Cynorthwyydd Ymchwil yn ystod y cyfweliad. Roedd aelodau o Teithio Ymlaen hefyd yn bresennol gan fod y cyswllt yn eu hadnabod ac roedd hynny'n gysur ac yn gymorth iddi. Canlyniad yr ymateb i'r holiadur hwn oedd bod ei hanghenion llety

yn cael eu bodloni drwy frics a morter. Yn anffodus, ychydig iawn o gysylltiadau oedd gan Teithio Ymlaen o fewn Ceredigion, er bod gweithio gyda hwy yn cynorthwyo i ennyn ymddiriedaeth ac i hyrwyddo ymgysylltiad ag ymatebwyr.

Dychwelwyd holiadur wedi ei gwblhau gan unigolyn a oedd ar y pryd yn byw mewn carafán breifat wedi'i rhentu. Cynigiwyd ymweliad safle a chyfweliad dros y ffôn ond roedd yr unigolyn hwn am lenwi'r holiadur ei hun.

Gwnaethpwyd ymdrech i fynd ar drywydd y cyswllt sydd nawr yn byw ar safle preifat gyda chaniatâd cynllunio ond ni chafwyd unrhyw ymateb ac mae hynny'n peri i ni gasglu ei fod bellach yn fodlon gyda'i anghenion llety ac nad oes angen safle awdurdodedig arnynt.

Yn y cyfweliadau wrth lenwi'r holiadur, petai'r sgwrs yn crwydro i faterion eraill, câi ymatebwyr eu hannog i sôn am unrhyw themâu a fyddai'n gwella dealltwriaeth Cyngor Sir Ceredigion o'u hanghenion. Yn arbennig, ceisiodd swyddogion holi'n fanwl am fwy o wybodaeth am batrymau tramwy i gael amcan ble a phryd y byddai'r angen yn codi a pham fod yr unigolyn a gâi ei gyfweld yn ystyried bod yna angen nas diwallwyd.

Cofnodwyd enwau a chyfeiriadau fel bod modd cysylltu gyda'r rheiny a oedd am dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ond mae pob ymateb yn gyfrinachol ac yn ddienw yn yr adroddiad hwn.

### Cyfyngiadau ar ymgysylltiad ymatebwyr

Y prif rwystr i'w oresgyn oedd gwneud cysylltiad cychwynnol gyda'r boblogaeth darged. Wedi hynny, y bwriad oedd defnyddio technegau caseg eira er mwyn ehangu cwmpas yr holiadur. Fodd bynnag, nodwyd nifer o gyfyngiadau mawr o'r cychwyn cyntaf:

- Yr anhawster sy'n gysylltiedig â chanfod Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn adeiladau brics a morter
- Cyfraddau llythrennedd isel o fewn y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Hanes gwael yr ymgysylltiad rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Dim ymgysylltu diweddar â Theithwyr Newydd
- Nifer cyfyngedig cynrychiolwyr y gymuned Sipsiwn a Theithwyr sy'n gweithredu yng Ngheredigion

## 6. Canfyddiadau'r Arolwg

Er gwaethaf tipyn o ymdrech, dim ond gan ddwy aelwyd y cafwyd ymatebion, ond ymgysylltwyd â thrydedd aelwyd ar ôl i gyfyngiadau Covid-19 lacio yn 2020. Rydym wedi gwneud ymgais bwriadus i osgoi datgelu gwybodaeth am gyn lleied o bobl. Heb os, gallai unrhyw un sydd ag awydd cryf i wneud hynny adnabod unigolion o'r wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen ar hyn o bryd, a chredwn fod hynny'n amhriodol. Nid yw'n fwriad gennym ddarparu mwy na'r lleiaf posibl o wybodaeth a allai gael ei defnyddio ar gyfer y diben hwn.

Mae Tabl 2 isod yn dangos nifer yr ymatebion yn ôl y math o lety.

**Tabl 2: Nifer yr ymatebwyr yn ôl y math o annedd**

| Math o lety | Aelwydydd y cysylltwyd â hwy | Holiaduron a gwblhawyd |
|---|---|---|
| **Safle preswyl y Cyngor** | 0 | 0 |
| **Safle tramwy'r Cyngor** | 0 | 0 |
| **Safle preifat:** | | |
| **– â chaniatâd cynllunio** | 1 | 0 |
| **– heb ganiatâd cynllunio** | 0 | 1 |
| **– yn destun apêl** | 0 | 0 |
| **Parc Carafanau Preswyl** | 0 | 0 |
| **Gwersyll diawdurdod** | 1 | 0 |
| **Brics a morter** | 3 | 1 |
| - **wedi rhentu'n gymdeithasol** | 3 | 1 |
| - **wedi rhentu'n breifat** | 0 | 0 |
| - **deiliadaeth yn anhysbys** | 0 | 0 |
| - **meddiennir gan y perchennog** | 0 | 0 |
| **Heb gartref sefydlog – yn teithio ar hyn o bryd** | 0 | 0 |
| **Hostel i'r digartref** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 5 | 2 |

Dangosir ethnigrwydd yr ymatebwyr yn Tabl 3 a'u proffil oedran yn Tabl 4 isod.

Tabl 3: Dadansoddiad ethnig ymatebwyr

| Ethnigrwydd | Nifer yr unigolion |
|---|---|
| **'Romani'/ 'Sipsi Romani'/ 'Teithiwr Romani '/ 'Romani Cymreig' / 'Romani Prydeinig'** | 1 |
| **'Teithiwr Gwyddelig'** | 0 |
| **'Teithiwr Newydd'** | 0 |
| **'Teithiwr Seisnig'** | 0 |
| **Sipsi Teithiol** | 0 |
| **'Teithiwr'/ 'Teithiwr Cymreig'/ Hen Deithiwr** | 0 |
| **'Siewmon' / 'Siewmon Prydeinig Cymreig'** | 0 |
| **'Sipsi Roma'** | 0 |
| **'Sipsi'/ 'Sipsi Cymreig'/ Sipsi Prydeinig Cymreig** | 0 |
| **Prydeinig Gwyn/Prydeinig Cymreig Gwyn** | 1 |
| **'Arall'/ Dim ymateb** | 0 |
| **Ddim yn Sipsi nac yn Deithiwr** | 0 |
| **Cyfanswm** | 2 |

Tabl 4: Proffil oedran ymatebwyr

| Oedran | Amlder |
|---|---|
| **0 < 10** | 0 |
| **10 < 20** | 0 |
| **20 < 30** | 0 |
| **30 < 40** | 1 |
| **40 < 50** | 0 |
| **50 < 60** | 0 |
| **60+** | 1 |
| **Dim ymateb** | 0 |
| **Cyfanswm** | 2 |

Oherwydd y gyfradd ymateb isel, nid oes modd dod i gasgliadau cadarn, ystyrlon ynghylch proffil demograffig y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y sir.

Tabl 5: Nifer yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety

| Math o lety | Nifer yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety | Nifer yr aelwydydd nad ydynt yn fodlon â'u llety | Canran yr aelwydydd sy'n fodlon â'u llety |
|---|---|---|---|
| Safle preswyl Awdurdod Lleol | - | - | - |
| Safle tramwy'r Cyngor | - | - | - |
| Safle preifat | | | |
| - sydd â chaniatâd cynllunio | - | - | - |
| - heb ganiatâd cynllunio | - | - | - |
| - yn destun apêl | - | - | - |
| Gwersyll diawdurdod | 0 | 1 | 0% |
| 'Brics a Morter' | 1 | 0 | 100% |
| - rhent cymdeithasol | 1 | 0 | 100% |
| - rhentu'n breifat | - | - | - |
| - meddiennir gan y perchennog | - | - | - |
| Hostel i'r digartref | - | - | - |
| Heb gartref sefydlog – yn teithio ar hyn o bryd | - | - | - |
| Cyfanswm | 1 | 1 | 50% |

Mae hi'n amlwg o'r tabl bod y rhan fwyaf o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Ngheredigion yn hapus gyda'u llety presennol.

Yr unig eithriad oedd yr unigolyn a gysylltodd ohono'i hun yn nodi bod y garafán y mae'n byw ynddi ar hyn o bryd yn annigonol, ond gan ei fod wedi gadael y sir erbyn hyn rydym felly yn cymryd yn ganiataol fod ei anghenion wedi eu diwallu mewn man arall.

## Cyfrifo anghenion

Mae cyfrifo'r angen preswyl cyffredinol yn ystyried nifer yr aelwydydd sy'n debygol o fod yn chwilio am leiniau a'r nifer disgwyliedig o leiniau y disgwylir iddynt fod ar gael. Mae'r cyfrifiadau'n cynnwys yr elfennau canlynol:

Y mannau a fydd ar gael:

- Lleiniau sy'n wag ar hyn o bryd
- Safleoedd newydd neu estyniadau i safle sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio
- Mudo o'r ardal
- Symud i adeilad brics a morter
- Aelwydydd yn chwalu

Grwpiau o bobl:

- yn chwilio am lety ar safle parhaol yn yr ardal
- ar wersylloedd diawdurdod
- ar ddatblygiadau diawdurdod na ddisgwylir iddynt gael caniatâd cynllunio
- ar lain sy'n orlawn ar hyn o bryd
- aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o fannau eraill
- cyfansoddiad teulu newydd o fewn aelwydydd sy'n bodoli eisoes
- mewn tai ond gyda'r angen am lety ar safle.

## Angen preswyl

Yn y cyfweliad a gynhaliwyd ag aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd bellach yn byw mewn adeilad brics a morter, dywedodd ei bod yn fodlon gyda'i llety presennol.

Nododd un ymatebwr a ystyriai ei hun yn Deithiwr Newydd ac a oedd yn aros mewn carafán wedi'i rhentu'n breifat fod ei lety presennol yn anfoddhaol ac mae hyn yn amlygu'r angen am lety. Fodd bynnag, yn dilyn ymholiadau pellach, roeddem yn ymchwilio i weld a oedd yr unigolyn yn gymwys ar gyfer ei gynnwys yn yr asesiad hwn. Er mwyn ceisio penderfynu a oedd yr unigolyn hwn yn bodloni'r meini prawf, ceisiom drafod ei gefndir a'i batrymau nomadiaeth gydag ef. Roeddem wrthi'n trafod y mater gyda'r adran gyfreithiol, ond cyn cwblhau'r asesiad, rhoddwyd gwybod i ni fod yr unigolyn wedi gadael y sir a'i fod bellach yn byw yn Sir Gâr.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr yn cynghori defnyddio cyfradd twf sy'n codi o'r broses arolwg a gwirio ei fod yn synhwyrol yn erbyn llenyddiaeth ymchwil er mwyn cyfrifo'r ddarpariaeth safle angenrheidiol sy'n ofynnol dros gyfnod o bymtheng mlynedd y CDLl. Fodd bynnag, gan mai dim ond tair blynedd sydd ar ôl o'r CDLl presennol ac oherwydd y nifer eithriadol o isel o ymatebion, mae'n amhosibl cael cyfradd twf cyfartalog cadarn o'r arolwg.

Gan nad oes unrhyw leiniau gan yr Awdurdod Lleol, nid oes unrhyw wybodaeth i'w defnyddio i gyfrifo amcangyfrif o gyfradd trosiant lleiniau. Ar sail yr wybodaeth a gafwyd o'r arolwg a'r un safle preifat yn y sir sydd wedi'i feddiannu gan un aelwyd yn unig ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw un o'r lleiniau hyn ar gael yn y dyfodol agos. Ni wnaethant ymateb i'r arolwg ac felly nid yw'n bosibl gwybod faint o aelwydydd newydd a allai ffurfio yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf ond dylai'r pum llain sydd ar y safle presennol allu fodloni anghenion twf o'r fath.

Mae crynodeb o'r angen a nodwyd i'w weld yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Angen preswyl yn ôl math o lain**

| **Y cyflenwad presennol o leiniau preswyl** | **Nifer y lleiniau / (aelwydydd)** |
|---|---|
| A. Lleiniau awdurdod lleol a feddiannwyd | 0 |
| B. Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd | 5 (1) |
| **Cyfanswm** | 5 (1) |

| **Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl** | **Nifer y lleiniau / (aelwydydd)** |
|---|---|
| C. Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael | 0 |
| D. Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag yn y dyfodol agos | 0 |
| E. Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd y mae caniatâd iddynt | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 |

| **Y galw presennol am leiniau preswyl** | **Nifer y lleiniau / (aelwydydd)** |
|---|---|
| F. Gwersylloedd diawdurdod | 0 |
| G. Datblygiadau diawdurdod | 6 (3) |
| H. Lleiniau wedi'u gorlenwi | 0 |
| I. Tai confensiynol | 0 |
| J. Aelwydydd newydd a fydd yn cyrraedd | 0 |
| **Cyfanswm** | 6 (3) |

| **Aelwydydd presennol** | **Aelwydydd yn y dyfodol (ym mlwyddyn 5)** | **Aelwydydd yn y dyfodol (Cyfnod y Cynllun 2033)** |
|---|---|---|
| K. 4 | 4 | 5 |
| **L. Cyfanswm yr angen am leiniau ychwanegol** | 0 | 1 |

| **Angen heb ei ddiwallu** | **Yr angen sy'n codi** | **Yr angen sydd wedi'i ddiwallu** |
|---|---|---|
| M. Y galw presennol am leiniau preswyl | 3 | – |
| N. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (pum mlynedd) | 0 | - |
| O. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun hyd at 2033) | 1 | - |
| P. Y cyflenwad arfaethedig o leiniau | 0 | - |

| | |
|---|---|
| **Q. Angen nas diwallwyd (pum mlynedd)** | **3** |
| **R. Angen nas diwallwyd<br>(Cyfnod y Cynllun 2018-2033)** | **4** |

**Angen ychwanegol aelwydydd**

Yn hytrach na defnyddio lleiniau yn sail i'r cyfrifiadau uchod, mae nifer yr aelwydydd wedi cael eu defnyddio gan eu bod yn darparu gwaelodlin fwy cywir er mwyn cyfrifo rhag-amcangyfrif ohoni. Y rheswm am y penderfyniad hwn, yw am ein bod yn ymwybodol bod un aelwyd (Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd) wedi diogelu'r safle hwn i bob pwrpas ar gyfer eu teulu yn y dyfodol trwy ofyn am ganiatâd ar gyfer 5 llain (sydd wedi'i ganiatâi). Gan fod y safle hwn wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol, mae'r angen uniongyrchol wedi'i fodloni, ac felly mae'n fwyaf priodol defnyddio ffigurau'r aelwydydd fel sail ar gyfer y cyfrifiadau.

Er mwyn cyfrifo angen ychwanegol aelwydydd dros gyfnod y cynllun (2018 i 2033), defnyddir ffigwr aelwydydd presennol, sef 4 gyda chyfradd twf flynyddol o 1.5%, sy'n amcangyfrif 5 aelwyd ychwanegol erbyn 2033. Yn absenoldeb gwybodaeth gadarn o'r arolwg lleol, defnyddir dadansoddiad demograffig o boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Ceredigion gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011 a 2021 yn sail i'r penderfyniad hwn.

Ers Cyfrifiad 2011, mae'r boblogaeth trigolion wedi gostwng 5.8%, ac ar yr un pryd, gostyngodd nifer y trigolion Sipsiwn a Theithwyr 22.9%. Hefyd, mae oedran canolrifol poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Ceredigion (35 i 49 oed) yn rhy uchel ar gyfer cyfradd twf o 3%. Er enghraifft, hyd yn oed os tybiwyd na fydd unrhyw farwolaethau yn y boblogaeth, byddai angen bod hanner poblogaeth blwyddyn un i fod o dan 23.5 oed er mwyn cyflawni twf blynyddol yn y boblogaeth o 3% (hy, dyblu bob 23.5 mlynedd). Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod lefel y twf ar bwynt isaf ystod cyfraddau twf arfaethedig Llywodraeth Cymru (1.5% i 3.0%).

**Angen heb ei ddiwallu**

Mae'r galw am breswyl presennol ac angen ychwanegol aelwydydd yn darparu cyfanswm ffigwr angen heb ei ddiwallu o 3 aelwyd dros y 5 mlynedd cyntaf a 4 aelwyd yn ystod cyfnod o 15 mlynedd (2018 i 2033).

Yn dilyn ystyried ymatebion yr holiadur a'r holl adnoddau data eraill, ni welwyd bod angen i ddarparu safle preswyl parhaol.

### Angen Tramwy

Mae'r cyfrif carafanau yn dangos bod rhywfaint o symudiadau tramwy yn digwydd ym misoedd y gwanwyn a'r haf, yn enwedig o gwmpas Plwmp lle'r oedd wyth carafán ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019. Er hynny ymddengys ers dechrau 2020 fod gweithgarwch ar y safle hwn wedi gostwng yn ddramatig wrth i nifer y carafanau ar y safle fod yn 0 hyd at gyfrif y carafanau ym mis Gorffennaf 2021. Ymddengys fod y carafanau ar y safle penodol hwn yn wersyll tymhorol, fe'i meddiennir yn bennaf ym misoedd yr haf, gan fod nifer y carafanau dipyn yn uwch ym mis Gorffennaf nag ym mis Ionawr. Cysylltir y gwersyll hwn â'r arwerthiannau ceffylau blynyddol yng Nghaerfyrddin a chyda swyddi lleol. Mae'r gwersyll hwn ar dir preifat ym

mherchnogaeth trydydd parti ac wedi'i feddiannu heb ganiatâd cynllunio, ac mae wedi bod yn destun camau gweithredu gorfodi yn y gorffennol.

Ymddengys bod patrymau tramwy yng Ngheredigion yn tueddu i fod yn gysylltiedig â'r Sioe Frenhinol, hunangyflogaeth dymhorol a thraddodiadau amaethyddol. Nododd un ymatebwr ei fod yn tybio bod angen safle tramwy yng Ngheredigion, gan eu bod yn tueddu aros mewn un man am wythnos neu ddwy. Pe baent yn gwneud hynny ar wersyll diawdurdod, byddai perygl iddynt dderbyn cais i ymadael â'r safle. Er bod cofnod diweddaraf y system gyfrif carafanau wedi nodi 0 carafán ar y datblygiad diawdurdod, eto cofnodwyd hyd at 13 carafán ar y safle yn y gorffennol. Yn ogystal, ymddengys fod ambell wersyll diawdurdod yn ne'r sir ambell flwyddyn. O roi'r cyfan at ei gilydd, gwelir yr angen i ddarparu safle tramwy. Yn ôl canllawiau dylunio safle sipsiwn a theithwyr, dylai lleiniau safle tramwy allu lletya dwy garafán deithio ar bob llain. Felly, ystyrir y byddai safle tramwy gyda phosibilrwydd o hyd at 10 llain yn darparu ar gyfer anghenion y sawl sydd yn y datblygiad diawdurdod yn ogystal â gwersylloedd diawdurdod tymor byr ac achlysurol eraill yn y sir.

Cafwyd ymgysylltu pellach â'r preswylwyr ym Mhlwmp yn ystod tymor teithio 2021 pan ddywedodd y grŵp fod ganddynt gysylltiad hanesyddol â'r tirfeddiannwr hwn ar ôl ymweld â'r safle i gynorthwyo ar y fferm ers y 1940au. Fodd bynnag, prin yw'r gwaith fferm a wneir ganddynt erbyn hyn, ac ystyriant yr ymweliad hwn i fod yn fwy o wyliau haf i ymweld â hen ffrindiau. Daeth i sylw'r Awdurdod Lleol fod y tirfeddiannwr blaenorol wedi marw a bod y tirfeddiannwr newydd yn awyddus i leihau ar y defnydd ac ar hyd y tymor. Felly, yn ystod tymor teithio 2021 meddiannwyd y safle am lai o wythnosau a hynny gan fenywod a phlant yn unig, mae'n amlwg bod gan y tirfeddiannwr fwriad cryf i leihau ar y defnydd ac i reoli'r safle'n well ac ymddengys bod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ymwybodol o hyn. Ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion gan yr ALl yn ystod y tymor teithio hwn. Y nifer uchaf o garafanau ar y safle yn ystod y tymor hwn oedd 6. Cynhaliodd y Swyddog Tai wiriadau lles ar y safle a cheisio ymgysylltu â'r preswylwyr ar sawl achlysur. Ymgysylltodd arweinydd y grŵp â'r Swyddog Tai a rhoddwyd cyngor ynghylch mynd i weld lleoliadau eraill a brechiadau Covid-19, ond dywedodd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn bresennol na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio safle tramwy yng Ngheredigion gan eu bod yn hanesyddol wedi ymweld â safle Plwmp.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer safle Plwmp gan ymgysylltu yn y gorffennol â'r perchennog blaenorol parthed rheoleiddio'r safle drwy gynllunio a phriffyrdd, ond roedd y perchennog blaenorol yn amharod i ymgysylltu â'r ALl. Mae'r perchennog newydd, er nad yw'n dymuno rheoleiddio'r safle'n ffurfiol drwy gais cynllunio, yn gobeithio lleihau ar y defnydd. Felly, nawr yw'r amser i weithio gyda'r tirfeddiannwr i ddod o hyd i ateb y gall pob ochr gytuno arno.

Nid oes unrhyw siewmyn preswyl yng Ngheredigion ar hyn o bryd a cheir ymweliadau rheolaidd ym mis Gorffennaf yn unig ar gyfer ffair Ceinewydd ac ym mis Tachwedd ar gyfer ffair Aberaeron, Aberystwyth ac Aberteifi. Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ymgais i ymgysylltu ag Urdd Siewmyn Prydain Fawr (The Showmen's Guild of Great Britain), er mwyn asesu a oedd ganddynt anghenion llety ychwanegol.

## Anawsterau a gafwyd

Mae sefydlu cyswllt gyda'r gymuned darged yn parhau'n anodd.

Gan mai dim ond gydag un aelwyd sy'n byw mewn tŷ confensiynol y llwyddwyd i gysylltu â hwy, nid oes gennym fwy o wybodaeth am safbwyntiau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y sefyllfa hon.

Rhwystr arall oedd pandemig Covid-19 gan ei fod wedi gwneud ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr yn amhosibl yn ystod tymor teithio 2020 oherwydd cyfyngiadau llym. Wrth i'r cyfyngiadau lacio ychydig yn ystod 2021, câi'r Swyddog Tai ymweld yn rhwyddach â'r safle gan lwyddo i ymgysylltu yno. Yn anffodus, nid oedd cynrychiolydd o Teithio Ymlaen wedi gallu ymweld â'r safle chwaith gan nad oes ganddynt yn dal yr awdurdod i fynd i safleoedd oherwydd y pandemig.

## 7. Casgliadau ac Argymhellion

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Gorffennaf 2019 a Hydref 2021, yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio methodoleg y cytunodd y Grŵp Llywio arni. Estynnwyd cyfnod yr arolwg y tu hwnt i'r terfyn amser gwreiddiol a gynlluniwyd oherwydd y gyfradd ymateb siomedig, a phandemig Covid-19 a gwnaed pob ymdrech i gysylltu ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a siewmyn teithiol. Fodd bynnag, prin oedd y llwyddiant: nid oedd yr un aelwyd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn carafán wedi llenwi'r holiadur; dim ond un aelod o'r gymuned sy'n nawr yn byw mewn llety brics a morter a lenwodd yr holiadur; gwrthod cymryd rhan yn yr asesiad oedd hanes holl aelodau syrcas deithio a Siewmyn yn y ffeiriau lleol; llwyddwyd i adnabod un Teithiwr Newydd ond gadawodd ef ardal yr awdurdod yn ddiweddarach.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, nid oes angen darpariaeth breswyl barhaol, fodd bynnag nodwyd angen posibl am ddarpariaeth tramwy dros y cyfnod CDLl newydd sy'n dod i ben yn 2033. Fodd bynnag, mae hwn yn dymhorol o gofio bod yr ymgysylltiad â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld â Cheredigion yn ystod yr haf wedi dangos ffafriaeth gref i barhau i ddefnyddio safle diawdurdod a dim awydd i ddefnyddio safle tramwy ffurfiol.

Mae'r awdurdod lleol felly yn cynnig gweithio gyda thirfeddiannwr newydd y safle ar ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth o bosibl ynghylch camau gorfodi, gan weithio tuag at y safle yn ffurfiol yn dod yn 'wersyll a oddefir' yn unol â'r darpariaethau fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli Gwersylla Diawdurdod 2013. Mae'r tirfeddiannwr wedi lleihau'r defnydd o'r safle, fel y mae wedi dangos ei fod yn gallu gwneud, yn ystod y tymor teithio diwethaf.

Mae dau reswm am hyn – yn gyntaf o ran deall y cysylltiad hanesyddol sydd gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr â'r lleoliad penodol hwn, ni fyddai'r ALl am darfu ar ymgynnull ers cenedlaethau ar dir preifat heb resymau eithriadol; yn ail nid yw'r perchennog newydd wedi cael digon o gyfle i reoleiddio'r defnydd petai am wneud hynny. Drwy fabwysiadau ymagwedd o'r fath yn ystod cyfnod nesaf yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, bydd modd monitro'r safle, ymgysylltu â'r preswylwyr a gwireddu canlyniad y trafodaethau. Fodd bynnag os bydd y defnydd yn cynyddu a bod camau gorfodi yn anochel, adroddir am hyn yn yr Asesiad nesaf ac efallai y bydd angen canfod datrysiad safle tramwy.

Bwriad yr Awdurdod Lleol yw gweithio gyda'r tirfeddiannwr i gytuno ar 'Cod Ymddygiad wedi'i drafod ar gyfer Aros a Gwersylloedd a Oddefir', ynghyd â derbyn yn ffurfiol na fydd achosion gorfodi yn cael eu dwyn cyn belled ag y cedwir at y cod ymddygiad. Bydd yr ALl hefyd yn ystyried opsiynau o ran diogelwch y safle ar y cyd â'r Awdurdod Priffyrdd.

Gall y diffyg safleoedd sydd yma ar hyn o bryd a'r diffyg ymgysylltu fod yn ffactorau yn y penderfyniad i deithio i Geredigion neu i fyw yma, ond oni bai y gellir sefydlu deialog rhwng y Cyngor a'r gymuned darged, yna bydd asesu'r angen yn parhau i fod yn heriol iawn.

Gyda chymorth cynrychiolwyr Teithio Ymlaen, bydd yr awdurdod yn monitro gwersylloedd yn ofalus ac yn ymchwilio o'r newydd i bosibiliadau ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y tymor teithio nesaf, er mwyn caffael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion penodol. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio gyda sefydliadau y tu allan i'r sir, yn benodol y Ganolfan Technoleg Amgen (CAT) i ddeall yn well anghenion unrhyw Deithwyr yr Oes Newydd yn y sir yr ydym ni yn ogystal â Teithio Ymlaen hefyd wedi cael trafferth eu canfod ac ymgysylltu â nhw.

## Tu hwnt i 2022

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gydraddoldeb a chydlyniant cymunedol. Wrth wynebu'r dyfodol, rhaid rhoi blaenoriaeth i feithrin cyd-ddealltwriaeth a gwella ymgysylltu â'r gymuned. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi integreiddio i'r gymuned sefydlog ond byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Mae'r awdurdod yn rheolaidd yn anfon cynrychiolwyr i'r Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu agenda cydraddoldeb mewn ymateb i Ddeddf 2010 ac yn cydnabod bod ethnigrwydd Sipsiwn a Theithwyr yn nodwedd warchodedig.

Cefnogir y Cyngor gan Gydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol sy'n gweithio ar hyn o bryd ar Gynllun Gweithredu rhanbarthol. O fewn y Cynllun Rhanbarthol sydd mewn grym hyd at ddiwedd fis Mawrth 2021, ceir amcan sy'n nodi'r canlynol:

- Bod ganddynt dîm ymroddedig a swyddog dynodedig i gefnogi'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.
- Eu bod wrthi'n datblygu safle newydd ar gyfer Llanelli yn ogystal â'r un sy'n bodoli eisoes.
- Y byddant yn sicrhau cefnogaeth gydlynol ynghylch safleoedd llety arfaethedig ac achrededig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys hybu anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn y broses o ddewis safle.
- Y byddant yn cefnogi strategaethau'r cyfryngau ac ymgysylltu cymunedol gyda'r gymuned mewn perthynas â safleoedd.
- Y byddant yn cefnogi hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig ynghylch eu dyletswyddau a'r prosesau cynllunio mewn perthynas â safleoedd.

Bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau bod yr un safle a nodwyd a ddefnyddir am ychydig wythnosau'r flwyddyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod gwiriadau lles yn cael eu cwblhau. Bydd swyddogion yn ymgysylltu â'r tirfeddiannwr a'r preswylwyr lle bo'n bosibl i weithio tuag at ddatrysiad y mae'r ddwy ochr yn cytuno arno. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn cyhoeddi ei benderfyniadau yn hyn o beth er mwyn sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r adrannau cynllunio a gorfodi i sicrhau cofnodi gwell data ar garafanau a allai fod o bosibl yn Sipsiwn a Theithwyr neu'n Deithwyr yr Oes Newydd er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfnod 5 mlynedd nesaf yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr.

O gofio bod Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn dod i rym a'r gofyniad o dan y rheoliadau hyn i gynnal Cynllun Datblygu Strategol, bydd swyddogion yn gweithio i bennu anghenion trawsffiniol asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Bydd swyddogion yn parhau i ddiweddaru'r system gyfrif carafanau gan ei bod yn cynnig dull gwell o fonitro patrymau mudo Sipsiwn a Theithwyr drwy gofnodi gwersylloedd mewn amser real, yn hytrach nag ar gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i swyddogion y Cyngor ryngweithio'n fwy effeithiol gyda'r boblogaeth deithiol a llunio darlun mwy cynhwysfawr o'r adegau a'r modd y defnyddir y llwybrau tramwy a phwy sy'n eu defnyddio.

O gael dealltwriaeth well o faint a lleoliad y boblogaeth darged, bydd modd i'r Cyngor ddarparu cymorth mwy effeithiol i'r gymuned e.e. os yw llythrennedd yn rhwystr rhag defnyddio gwasanaethau, yna gellir rhoi cymorth priodol. Efallai y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws llywio'r broses gynllunio ac yn hwyluso darparu safleoedd preifat yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Gall cydweithio agosach gyda Theithio Ymlaen a chyrff tebyg eraill agor drysau yn y pen draw i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o fewn y sir wrth i drywydd polisi Llywodraeth Cymru ar eu hanghenion penodol hwy fod yn fwy hysbys a chael ei dderbyn yn ehangach.

## Atodiad 1: Diffiniadau

**Tabl 7: Crynodeb o'r diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sipsiwn a Theithwyr | (a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:<br>(1) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol; a<br>(2) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); ac<br>(b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.<br>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| Safle preswyl | Gall safle preswyl parhaol fod o dan berchenogaeth breifat neu berchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br>Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned. |
| Safle preswyl dros dro | Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl y rhoddwyd caniatâd cynllunio neu drwydded safle ar eu cyfer am gyfnod penodol cyfyngedig yn unig. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl cael meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundeb llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol [Cymru] 2013 – pa bynnag gyfnod sydd fyrraf). |
| Safle tramwy | Safleoedd tramwy yw cyfleusterau parhaol sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn a rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr barhau â ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswylio ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf.<br>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r safleoedd hyn. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned. |

| | |
|---|---|
| Man Aros Dros Dro | Rhai o'r enwau eraill arno yw 'gwersyll' neu 'Atchin Tan'. Mae'r rhain i'w defnyddio dros y tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol lle y derbynnir bod angen lleiniau ond nad oes dim ar gael ar y pryd. Gellir adleoli gwersylloedd mewn lleoedd amhriodol i fannau aros dros dro sydd wedi'u pennu ymlaen llaw wrth baratoi safleoedd eraill.<br>Rhaid darparu ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra ar fannau aros dros dro. |
| Llain breswyl | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai fod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio. |
| Llain dramwy | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf.<br>Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol ond nid yw hyn yn cael ei argymell. |
| Gwersyll diawdurdod | Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog neu heb gael caniatâd cynllunio cywir i ddefnyddio'r tir. Caiff yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bydd safleoedd eraill yn cael eu datblygu. |
| Datblygiad diawdurdod | Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer defnydd y tir. |
| Cyflenwad presennol o leiniau preswyl | Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. |
| Galw presennol am leiniau preswyl | Y rheini y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am wahanol resymau, gan gynnwys:<br>• anallu i sicrhau llain awdurdodedig sydd wedi arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod;<br>• anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod;<br>• aelwydydd sy'n profi gorlenwi ac sydd am gael llain;<br>• aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n dangos gwrthwynebiad diwylliannol;<br>• aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o leoedd eraill. |
| Galw yn y dyfodol am leiniau preswyl | Nifer yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio a fydd yn creu mwy o alw o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad o lety a chyfnod hirach y CDLl. |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr angen am leiniau preswyl | Y cyfrif terfynol o anghenion llety sydd heb eu diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r angen presennol am leiniau preswyl at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd cyfanswm yr angen am leiniau preswyl yn dangos yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd y mae'r asesiad o lety'n cael ei ystyried yn ddibynadwy.<br><br>The overall residential need will capture the needs across the 5 year period within which the accommodation assessment is considered to be robust. |
| Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl | Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos am fod aelwydydd wedi symud i dai confensiynol neu oherwydd amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor a safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl. |
| Aelwyd | Mae hyn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain / tŷ / gwersyll. |
| Aelwyd gudd neu ddwbl | Mae hyn yn golygu aelwydydd sy'n methu â chael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn lle hynny mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi'i neilltuo i aelwyd arall.<br><br>Gall hyn gynnwys plant sydd bellach yn oedolion sydd wedi methu â symud i'w cartref eu hunain neu aelwydydd gwahanol sy'n meddiannu un llain. |
| Twf mewn aelwydydd | Y diffiniad o dwf mewn aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal. |

Detholiad o Ddeddf Tai Symudol (Cymru) 2013

**60 Ystyr "cartref symudol"**

(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "cartref symudol" yw unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy'n gallu cael ei symud o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo, ond nid yw'n cynnwys—

(a) unrhyw gerbydau rheilffyrdd sydd am y tro ar gledrau sy'n ffurfio rhan o system reilffyrdd, neu
(b) unrhyw babell.

(2) Nid yw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sydd—

(a) wedi ei gyfansoddi o heb fod yn fwy na 2 adran sydd wedi eu hadeiladu ar wahân ac sydd wedi eu dylunio i gael eu cydosod ar safle drwy gyfrwng bolltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill, ac
(b) sydd, o’i gydosod, yn ffisegol yn gallu cael ei symud ar y ffordd o’r naill le i’r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd),

i’w drin fel pe na bai’n gartref symudol (neu fel pe na bai wedi bod yn gartref symudol) at ddibenion y Ddeddf hon dim ond am y rheswm nad oes modd cyfreithlon ei symud ar briffordd ar ôl ei gydosod.

(3) At ddibenion y Ddeddf hon nid yw “cartref symudol” yn cynnwys strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo sy’n syrthio o fewn is-adran (2)(a) a (b) os yw ei ddimensiynau ar ôl ei gydosod yn fwy nag unrhyw un neu ragor o’r terfynau a ganlyn, sef—

(a) hyd (heb gynnwys unrhyw far tynnu): 20 o fetrau,
(b) lled: 6.8 metr, ac
(c) uchder cyffredinol y lle byw (o’i fesur ar y tu mewn o’r llawr ar ei lefel isaf hyd at y nenfwd yn ei lefel uchaf): 3.05 metr.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn osod yn lle unrhyw ffigur a grybwyllir yn is-adran (3) unrhyw ffigur arall a bennir yn y gorchymyn.

## Atodiad 2: Log Gweithgarwch

| Cod | Math o ddeiliadaeth | Troeon y ceisiwyd cyfweld | | | Technegau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu | Llenwi neu wrthod llenwi'r holiadur? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GTAA_1 | Gwersyll diawdurdod | x | x | x | Curo ar y drws / ymweliad | gwrthod | Dim ond gwragedd oedd yn bresennol yn y safle pan ymwelwyd â'r safle gan y Swyddog oedd yn gyfrifol am gyfrif carafanau ond fe wrthodon nhw gyfathrebu ag ef. Roedd y safle'n wag pan ymwelodd y Cynorthwywr Ymchwil a Chynrychiolwyr o Teithio Ymlaen. Gwnaeth y Swyddog Tai sawl ymdrech i ymgysylltu â nhw drwy gydol 2021 ond roedd yr unigolion ar y safle wedi'i gwneud yn glir na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn safle tramwy. |
| GTAA_2 | Brics a Morter | x | | | Trefnwyd ymweliad â'r cartref | llenwi | Hapus gyda'r llety presennol |
| GTAA_3 | Gwersyll Preifat Awdurdodedig | x | x | | Anfonwyd holiadur, e-bost | llenwi | Trafodwyd yr asesiad gyda'r unigolyn ac roedden nhw'n dymuno cymryd rhan. Anfonwyd holiadur gyda chynnig i ymweld â'r safle neu lenwi holiadur dros y ffôn. Dychwelwyd holiadur drwy'r post. |
| GTAA_4 | Safle Preifat Awdurdodedig | x | | | Anfonwyd llythyr | gwrthod | Dim ymateb ond ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio pellach, felly cymerir yn ganiataol nad oes angen pellach. |

# Atodiad 3: Log Cyfweliadau

| Dyddiad yr ymgysylltu | Math o Ddeiliadaeth | Nifer y carafanau yn bresennol | Trafodaeth |
|---|---|---|---|
| Gorff-19 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 13 | Y swyddog oedd yn gyfrifol am y garafán wedi ymweld â safle Plwmp – dim ond menywod oedd yn bresennol ar y safle a gwrthodasant ymgysylltu ag ef. |
| 29.10.19 | Gwersyll Awdurdodedig Preifat | 5 | Anfonwyd llythyr i wersyll awdurdodedig preifat ond ni chafwyd ymateb, heb dderbyn unrhyw geisiadau cynllunio pellach ac felly'n cymryd yn ganiataol nad oes angen pellach. |
| 07.11.19 | Gwersyll diawdurdod - Safle Plwmp | 0 | Roedd y safle'n wag pan ymwelodd y Cynorthwyydd Ymchwil a chynrychiolwyr o Teithio Ymlaen. |
| 07.11.19 | Brics a Morter | 0 | Gyda chynrychiolwyr o Teithio Ymlaen, ymwelwyd ag unigolyn a oedd yn byw mewn brics a morter a ganfuwyd gennym drwy ddefnyddio'r gofrestr dai. Llanwyd holiadur ac roedd yr unigolyn yn fodlon gyda'i lety presennol. |
| 14.11.19 | Gwersyll Awdurdodedig Preifat | 0 | Trafodwyd yr asesiad gydag unigolyn a gysylltodd ac a ddisgrifiai ei hun fel teithiwr. Roedd wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan, felly anfonwyd holiadur ato ynghyd â chynnig o ymweliad safle neu lenwi'r holiadur dros y ffôn. Cafodd holiadur wedi'i lenwi ei bostio'n ôl. |
| 20.01.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 0 | Aeth y Swyddog Safonau Tai heibio'r safle ac roedd y safle wedi cau a dim carafanau yno. |
| 17.05.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 0 | Roedd y Swyddog Safonau Tai wedi ymweld â'r safle ac roedd y safle yn dal wedi cau a dim carafanau yno. |
| 03.07.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 0 | Aeth y Swyddog Safonau Tai heibio'r safle ac roedd y safle wedi cau a dim carafanau yno. |
| Diwedd Gorffennaf | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 0 | Ymwelodd y Swyddog Safonau Tai â'r safle 5 gwaith dros yr haf, cyrhaeddodd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar y safle ddiwedd Gorffennaf. |
| 3.08.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 6 | Wrth ymweld â safle Plwmp, menywod a phlant yn unig oedd yn bresennol ac felly penderfynwyd peidio mynd atynt ac i ddychwelyd yn ddiweddarach yn y mis. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.08.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 6 | Aethpwyd i Safle Plwmp, menywod a phlant yn unig oedd yno. Ymgysylltwyd â'r gymuned i gynnal gwiriad lles – cadarnhawyd bod pawb yn iawn ac yn fodlon. Roedd 6 carafán deithiol yn bresennol ar y safle (menywod a phlant yn unig). Roedd mynediad i ddau doiled, mynediad i ddŵr, mynediad i gawodydd (yn y carafannau), a châi sbwriel ac ailgylchu eu casglu gan CSC. Roedd gan y carafanau hefyd gysylltiad trydan. Cafwyd trafodaeth ar roi brechiadau Covid-19 i'r gymuned, trefnwyd ymweliad dilynol yr wythnos ganlynol gyda rhagor o wybodaeth am frechiadau Covid-19 a beichiogrwydd. Roedd y gymuned i ddychwelyd i Iwerddon ymhen pythefnos. |
| 17.08.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 5 | 5 carafán deithiol ar y safle. Ymwelwyd â'r safle i roi gwybodaeth bellach am frechiadau Covid-19. Siaradodd y Swyddog Safonau Tai â GIG/ NHS ac awgrymwyd nad oedd fawr o ddiben i'r gymuned gael eu brechu yma gan fod brechlynnau gwahanol yn cael eu defnyddio yn Iwerddon. Rhoddwyd manylion y ganolfan covid-19 agosaf gan fod angen canlyniad negatif covid-19 er mwyn dychwelyd i Iwerddon. Gan fod y gymuned yn pryderu ar ôl clywed mythau yn ymwneud â'r brechlyn, rhoddwyd manylion am y brechlyn. Rhoddwyd manylion cysylltu'r Swyddog Safonau Tai i'r gymuned petaent am ymgysylltu ymhellach. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr angen am safle tramwy, dywedasant nad oedd ganddynt ddiddordeb gan eu bod wedi dod yn hanesyddol i safle Plwmp yn unig. |
| 07.09.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 4 | 4 carafán deithiol yn bresennol, ond neb ar y safle. Bydd y Swyddog Safonau Tai yn parhau i fonitro'r safle i weld a yw'r gymuned wedi dychwelyd i Iwerddon. |
| 06.10.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 4 | 4 carafán deithiol yn bresennol ac un fan fach wen (Renault Kangoo), ond fel arall doedd neb ar y safle. |
| 13.10.21 | Gwersyll diawdurdod - safle Plwmp | 2 | 2 garafán deithiol ac 1 hen Ford llwyd rhydlyd, neb ar y safle. |

## Atodiad 4: Holiadur

**ADRAN A – EICH CARTREF**

### A1 Ble rydych chi'n byw nawr?

| | |
|---|---|
| Safle preswyl Awdurdod Lleol ("y Cyngor") | |
| Safle tramwy'r Cyngor | |
| Safle preifat sydd â chaniatâd cynllunio | |
| Safle preifat sydd heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd | |
| Gwersyll diawdurdod | |
| Brics a Morter – Rhent Cymdeithasol | |
| Brics a Morter – Rhentu'n Breifat | |
| Brics a Morter – Perchennog sy'n feddiannydd | |

### A2 Ydych chi'n fodlon ar eich llety presennol?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dewis peidio â dweud | |

Os ateboch 'nac ydw', esboniwch sut y gellid ei wella:

### A3 Allwch chi ddweud wrthyf pam rydych chi'n byw yma?

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau lleol (teulu neu waith) | |
| Dim llain awdurdodedig arall | |
| Methu dod o hyd i dŷ i symud iddo | |
| Rhesymau'n ymwneud ag oed neu iechyd | |
| Well gen i dŷ na charafán | |
| Rheswm arall: | |

**A4 Pa mor hir rydych chi wedi byw yma?**

| Llai nag 1 mis | 1–6 mis | 7–12 mis | 1–2 flynedd | 2–5 mlynedd | Dros 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**A5 Os ydych chi wedi symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a oedd eich cartref diwethaf yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?**

**OEDD / NAC OEDD**

Rhowch y manylion isod:

| **Math o lety** | **A oedd caniatâd cynllunio ar ei gyfer?** | **Yn ardal pa Awdurdod Lleol oedd ef?** | **Pam wnaethoch chi adael?** |
|---|---|---|---|
| | | | |

**A6 Pa mor hir rydych chi'n credu y byddwch chi'n aros yma?**

| 1 neu 2 ddiwrnod | 3 – 28 diwrnod | 1 – 3 mis | 3 mis – 2 flynedd | 2 – 5 mlynedd | Dros 5 mlynedd | Ddim yn bwriadu symud | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**A7 A fyddech chi'n aros yn hirach petai newidiadau neu welliannau'n cael eu gwneud i'ch llety presennol?**
(*Sylwer: Mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu gwneud y gwelliannau hyn ond bydd yn help iddo ddeall y problemau â'ch llety*)

**BYDDWN**

| **Rheswm** | **Tic** |
|---|---|
| Angen gwaith trwsio | |
| Gwneud y safle'n fwy | |
| Gwneud y llety'n fwy diogel | |
| Cael caniatâd cynllunio | |
| Angen addasiadau (noder isod) | |

**NA FYDDWN**

| **Rheswm** | **Tic** |
|---|---|
| Dim ond teithio drwodd ydw i | |
| Am gael llain awdurdodedig mewn ardal arall | |
| Am symud i dŷ | |
| Perthynas wedi dod i ben | |
| Well gen i fyw mewn carafán | |

Arall:

**ADRAN B – EICH TEULU**

| | Sut mae'n perthyn i'r ymatebydd (e.e. priod, mab/merch ayb.) | Oed | Rhyw | Romani / Teithiwr Gwyddelig / Teithiwr Newydd / Siewmon / Roma / Arall (disgrifiad yr ymatebydd) | A oes unrhyw resymau na allwch chi barhau i fyw yn y llety hwn? (rhowch fanylion) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymatebydd | | | | | |
| Person 2 | | | | | |
| Person 3 | | | | | |
| Person 4 | | | | | |
| Person 5 | | | | | |
| Person 6 | | | | | |
| Person 7 | | | | | |
| Person 8 | | | | | |
| Person 9 | | | | | |
| Person 10 | | | | | |
| Person 11 | | | | | |
| Person 12 | | | | | |

*Os nad yw'r ymatebydd yn byw mewn carafán, ewch ymlaen i B4*.

**B2 Os ydych chi'n byw mewn carafanau, a oes digon o fannau cysgu i'r holl breswylwyr?**

**OES / NAC OES**

**B3 A oes lle ar y llain ar gyfer carafanau ychwanegol er mwyn sicrhau na fydd gorlenwi?**
*(Sylwer: mae canllawiau'n awgrymu bod angen bwlch o 6 metr rhwng carafanau a bwlch o 3 metr at y terfyn er mwyn eu cynnwys yn ddiogel ar y llain)*

**OES / NAC OES**

**Os oes, faint o fannau cysgu y gellir eu hychwanegu?**

**B4 A oes unrhyw un yn eich teulu a fyddai'n hoffi mynd ar restr aros yr Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau neu dai?**

**OES / NAC OES**

**Rhowch gyfeiriad ar gyfer anfon pecyn ymgeisio yn y post:**

*Dywedwch os ydych chi ar restr aros yn barod ac ar ba restr.*

ADRAN C – EICH CYNLLUNIAU

**C1 Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Ewch i C2*** | |
| Nac ydw | ***Ewch i D1*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i D1*** | |

**C2 I ble rydych chi'n bwriadu symud?**

| | |
|---|---|
| O fewn ardal yr Awdurdod Lleol | |
| I ardal Awdurdod Lleol arall yng Nghymru – nodwch ba un: | |
| Rhywle arall yn y Deyrnas Unedig | |

**C3 Pam rydych chi'n bwriadu symud?**

| | |
|---|---|
| Angen mwy o le | |
| Angen cyfleusterau gwahanol | |
| Cysylltiad lleol (teulu neu waith) | |
| Angen bod yn agosach at wasanaethau – ysgolion etc (Rhowch fanylion isod) | |
| Cyfleoedd gwaith | |
| Rheswm arall (nodwch isod) | |

**Gwasanaethau:**

**Rheswm arall:**

**C4 Pa fath o lety rydych chi'n bwriadu symud iddo?**

| **1. Safle** | |
|---|---|
| Rhentu cymdeithasol / gan y Cyngor | |
| Safle preifat sy'n eiddo i chi | |
| Safle preifat sy'n eiddo i rywun arall | |

| 2. **Brics a Morter / tŷ** | |
|---|---|
| Perchennog /meddiannydd | |
| Rhentu gan y Cyngor / Cymdeithas Dai | |
| Rhentu gan landlord preifat | |

**C5 Ydych chi'n berchen ar dir yn ardal yr Awdurdod Lleol y byddech chi'n hoffi iddo gael ei ystyried ar gyfer safle yn y dyfodol?**

*(Sylwer: Rhaid i'r cyfwelydd egluro nad oes sicrwydd y bydd y safle'n cael ei neilltuo neu ei ddatblygu ond gall swyddogion cynllunio gysylltu â'r ymatebydd i drafod ei sefyllfa a chynnig cymorth)*

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Rhowch eich manylion isod*** | |
| Nac ydw | ***Ewch i C6*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i C6*** | |

**Os dymunwch i'r Awdurdod Lleol drafod y cynllun hwn gyda chi, rhowch eich manylion cyswllt isod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Byddwn** | **Na fyddwn** |
| **C6** | **Os ydych chi'n chwilio am lain awdurdodedig, a fyddech chi'n byw ar safle wedi'i reoli gan yr Awdurdod Lleol, pe byddech yn cael cynnig un?** | | |
| **C7** | **Petai llain awdurdodedig ar gael yn ardal Awdurdod Lleol arall, a fyddech chi'n ystyried symud yno?**<br><br>**Os byddech, pa Awdurdodau Lleol fyddai o ddiddordeb i chi?** | | |

## ADRAN D - TWF Y TEULU

### D1 A oes unrhyw un yn eich aelwyd sy'n debygol o fod eisiau symud i'w gartref ei hun yn y 5 mlynedd nesaf?

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D2*** | |
| Nac oes | ***Ewch i D4*** | |
| Ddim yn gwybod | ***Ewch i D4*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

### D2 A fydd hyn yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?

| | | |
|---|---|---|
| Bydd | ***Ewch i D3*** | |
| Na fydd | ***Ewch i D4*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

### D3 Faint o aelwydydd newydd fydd yna a pha bryd y bydd angen y rhain?

| | **Math o lety (safle'r ALl; safle preifat; tai brics a morter)** | **Nifer y bobl** | **Nawr** | **Ymhen blwyddyn** | **1-2 flynedd** | **2-5 mlynedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelwyd 1** | | | | | | |
| **Aelwyd 2** | | | | | | |
| **Aelwyd 3** | | | | | | |
| **Aelwyd 4** | | | | | | |

### D4 A oes aelodau o'ch teulu sy'n byw y tu allan i'r ardal hon sy'n gwersylla'n rheolaidd yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn?

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D5*** | |
| Nac oes | ***Ewch i E1*** | |
| Ddim yn gwybod | ***Ewch i E1*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i E1*** | |

**D5 Os bydden nhw'n hoffi cael eu cyfweld am yr angen am leiniau, rhowch eu manylion cyswllt ac ardal yr Awdurdod Lleol lle maen nhw'n byw nawr:**

| |
|---|
| |

**ADRAN E – SAFLEOEDD TRAMWY**

**E1 Ydych chi wedi gwersylla ar ochr y ffordd / mewn gwersyll diawdurdod / ar safle tramwy yng Nghymru wrth deithio yn y flwyddyn ddiwethaf?**

*(Nodyn: dim ond i gael gwybod a oes angen mwy o safleoedd tramwy rydyn ni'n gofyn am y wybodaeth hon)*

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Ewch i E2*** | |
| Nac ydw | ***Ewch i E4*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Ewch i E4*** | |

**E2 Yn ardaloedd pa Awdurdodau Lleol ydych chi wedi gwersylla?**

| | |
|---|---|
| | |
| Dewis peidio â dweud | |

**E3 Pa mor hir fyddech chi'n aros mewn un lle fel arfer wrth deithio?**

| 1 – 2 diwrnod | 3 diwrnod – 1 wythnos | 1 – 2 wythnos | 2 wythnos – 1 mis | 1 – 3 mis |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**E4 Ydych chi'n credu bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Ewch i E5*** | |
| Nac ydw | ***Diwedd yr holiadur*** | |
| Dewis peidio â dweud | ***Diwedd yr holiadur*** | |

## E5 Ble mae angen y rhain?

*(Holwch am enw'r Awdurdod Lleol a lleoliadau penodol)*

| | |
|---|---|
| | |
| Dewis peidio â dweud | |

***Diwedd yr holiadur.***

## Atodiad 5: Posteri Dwyieithog

A law called the Housing (Wales) Act 2014 means that Councils must assess and make provision for the accommodation needs of Gypsies and Travellers in their area.

The Council would like to speak with all Gypsies and Travellers living in the county or travelling through it to find out whether your family requires a residential pitch or a yard.

# Gypsy and Traveller Survey

## Your Future, Your Say

To speak with the Council, please telephone 01545 570881

e-mail: gt@ceredigion.gov.uk

or visit one of the Council offices

We would like to speak to you before the 12th of November 2019

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a darparu safleoedd priodol pan nodir bod yna anghenion llety sydd heb eu diwallu.

Mae'r Cyngor eisiau siarad gyda'r holl Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn y sir neu'n teithio drwyddi er mwyn darganfod os oes angen llain breswyl neu iard ar eich teulu.

# Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

## Eich Dyfodol, Eich Barn

I siarad gyda'r Cyngor, ffoniwch 01545 570881

e-bostiwch: gt@ceredigion.gov.uk

neu gallwch alw mewn i un o swyddfeydd y Cyngor

Hoffwn siarad â chi cyn y 12fed o Dachwedd 2019

# Atodiad 6: System Fyw ar gyfer Cyfrif Carafanau

☑ Auto-pan

Table | Map

| Name | Local Authority | Caravans | Residential | Transit | Authorised | Updated | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plwmp 2021 (August) | Ceredigion | 6 | 0 | 0 | ✖ | 16/08/2021 | Actions |
| Plwmp 2021 (July count) | Ceredigion | 0 | 0 | 0 | ✖ | 13/07/2021 | Actions |
| Plwmp 2021 | Ceredigion | 0 | 0 | 0 | ✖ | 24/05/2021 | Actions |
| Plwmp 2019 | Ceredigion | 8 | 0 | 0 | ✖ | 08/12/2020 | Actions |
| Plwmp | Ceredigion | 13 | 0 | 0 | ✖ | 03/12/2018 | Actions |
| Lampeter Rookerly Car Park | Ceredigion | 6 | 0 | 0 | ✖ | 08/10/2018 | Actions |
| Penweddig Playing Fields | Ceredigion | 11 | 0 | 0 | ✖ | 28/08/2018 | Actions |
| Coedmore Cardigan | Ceredigion | 2 | 0 | 0 | ✖ | 06/10/2017 | Actions |
| Parc Teifi | Ceredigion | 11 | 0 | 0 | ✖ | 26/07/2017 | Actions |
| Cardigan, Quay Street Car Park | Ceredigion | 8 | 0 | 0 | ✖ | 18/07/2017 | Actions |
| Llandysul Business Park | Ceredigion | 16 | 0 | 0 | ✖ | 18/07/2017 | Actions |
| Llangybi | Ceredigion | 2 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Furnace | Ceredigion | 1 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Croes y Llan | Ceredigion | 1 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Coedmore | Ceredigion | 1 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Llangybi layby | Ceredigion | 1 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Llangybi common | Ceredigion | 1 | 0 | 0 | ✖ | 08/02/2017 | Actions |
| Cardigan | Ceredigion | 2 | 0 | 0 | ✖ | 26/09/2016 | Actions |

**Disclaimer :** The Caravan Count System should not be used to track the movements of individuals or households from place to place. Using the system in this way could be a breach of the Human Rights Act 1998 or Data Protection Act 1998. The Welsh Government accepts no liability for personally identifiable information inputted on the system. Users should be aware that their data is accessible by all other Local Authorities and Police forces in Wales. Other public bodies or organisations may be added in time but this will not be done without consultation with all existing users.

© 2021 - Welsh Government | Contact